tafod elái

MAWRTH 2022

Rhif 365

Pris £1

Dathlu Cyfeillgarwch Cymru a'r Alban

Roedd penwythnos gêm Cymru yn erbyn yr Alban yn achlysur arbennig i Glwb Rygbi Pentyrch - cyfle i ddathlu deugain mlynedd o gysylltiad rhwng y clwb a bois rygbi Ynys Bute yn yr Alban. Ym 1980 y dechreuwyd y berthynas pan gafodd John Williams - Cefn Bychan - alwad oddi wrth ffrind iddo yn dweud bod pum Albanwr yr oedd e yn eu 'nabod am ddod i Gaerdydd i wylio'r gêm ond yn methu dod o hyd i le i aros mewn unrhyw westy. Fe geisiodd John - ond yn ofer - felly fe wnaeth e a Gwyneth agor drysau'r cartre' ym Mherthi Bach i'w croesawu a dyna pryd y daeth y bois hynny lawr i Gae'r Dwrlyn ar y nos Wener, cwrdd â nifer o hoelion wyth rygbi Pentyrch a phenderfynu cynnal y berthynas am y blynyddoedd oedd i ddod.

Yr Arloeswyr yn 1980

Ac mae'r berthynas honno'n parhau hyd heddiw gyda sawl un a ddaeth yma am y tro cyntaf - yn dîm a chefnogwyr ym 1982 yn dal i aros gyda'r un teuluoedd ag y gwnaethon nhw ddeugain mlynedd yn ôl. Cyfeillgarwch oes i lawer felly; yn ôl y sôn blodeuodd ambell garwriaeth hefyd rhwng merched y pentre a'r bois o'r Alban - ond heb i un gyrraedd yr allor! Ac ma storie'n frith o hyd am y rhialtwch ar y penwythnose hynny - cyfeddach tan yr orie mân a hyd yn oed awgrym bod y bachan ar y bagbib wedi arwain y criw drwy'r pentre unweth yn y bore bach gan ddihuno'r trigolion!! O ie - ac rodd yna gêm o rygbi hefyd am flynyddoedd cyn i bawb fynd yn rhy hen i wisgo'r togs. Gêm o golff i rai; blas o'r chwisgi draw ym Mhenderyn i eraill, neu



wâc fach i gopa'r Garth odd y drefn i'r bois yn eu cilts y tro hwn.

Roedd y Clwb felly dan ei sang ar gyfer y dathliad - a chamerâu "Heno" yno yn darlledu'n fyw wrth nodi'r achlysur. Sgwrsio gyda hwn a'r llall am y traddodiad, a'r rhaglen yn cloi yn sŵn y bagbip. Wedyn gwledd wedi ei pharatoi gan Trish - y rheolwraig newydd - a'i thîm; gwledd o ganu gan Gôr Meibion Taf i ddechre'r noson; ffrindie wedyn yn rhannu atgofion ac ymlaen at y Karaoke a rhywfaint o ddisgo bron at hanner nos. Ac yn goron ar y cyfan casglwyd £2,000 o bunnoedd tuag at Ysbyty Felindre ar ôl i'r gweithgar John Berry annog aelode'r clwb ac aelode cymdeithas golff y clwb - yr Hyrddod - i gyfrannu £20 yr un er mwyn gwneud yn siŵr bod crys arbennig Cymru,, oedd ar ocsiwn wedi ei arwyddo gan Jonathan Davies ac yn dymuno'n dda i'r cyfeillgarwch am y dyfodol, yn aros ym Mhentyrch.

Penwythnos i'w drysori, a hyd yn oed bois y Bute ddim yn poeni'n ormodol am y canlyniad!! Ynys Bute amdani felly ymhen y flwyddyn. (Huw Ll Davies)

£10

Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.

Gofynnwn i chi fynd i wefan TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd. Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.

Cydnabyddiaeth am Waith Gwirfoddol

Mae teulu Ysgol Llanhari wrth eu bodd fod Mr Colin Pari, Arweinydd y Fagloriaeth yn yr ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth am ei waith yn gwirfoddoli gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ystod y pandemig. Mae'n esiampl wych o ddinesydd da, rhinwedd y mae'n ceisio datblygu ymysg disgyblion Llanhari wrth eu hannog i wirfoddoli. Newyddion ardderchog!

Cyw a'i Ffrindiau'n Dathlu Gwneud y Pethau Bychain!



Mae *Cenhinen Fwya'r Byd!* sef y llyfr nesaf yng nghyfres boblogaidd Cyw gan Anni Llŷn, yn dilyn un o ffrindiau gorau Cyw, Jangl y Jiráff, wrth iddi geisio ennill cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi – 'Cenhinen Fwya'r Byd'!

Mae'r stori yn gweld y ffrindiau yn dod ynghyd i wneud y pethau bychain i helpu'r genhinen i dyfu'n fawr ac yn gryf.

Mae *Cenhinen Fwya'r Byd!* gan Anni Llŷn ar gael nawr (£3.95, Y Lolfa).

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
25 Mawrth 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Clwb y Dwrlyn yn Fyw

Nos Iau yr 17eg o Chwefror 2022 y cyfarfu aelodau Clwb y Dwrlyn yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, i gynnal noson gymdeithasol, a hynny am y tro cyntaf ers mis Chwefror 2020.

Oherwydd yr haint, Cinio Gŵyl Ddewi 2020 oedd y digwyddiad olaf yn nhymor 2019/20, a Chinio Nadolig fu unig arlwy wyneb-yn-wyneb tymor 2021/22 hyd yma. (Cyfarfodydd "ar Zoom" fu gweddill y ddarpariaeth.)

"Fy nhrysor i" oedd y thema a osodwyd, a bu pedwar o'r aelodau yn rhannu eu trysorau hefo'r gynulleidfa niferus a fentrodd allan cyn i Storm Eunice lanio yn y parthau.

Ann Dwynwen gyda'i thrysor o lyfr, "Y Cwm Tecaf - Cwm Pennant Ddoe a Heddiw" gan David Williams, agorodd y drafodaeth, a bu iddi olrhain ei phlentyndod yng Ngarndolbenmaen, pan symudodd ei thad yno fel plismon. Cawsom i gyd rai o'r profiadau a ddisgrifiwyd ganddi fel plant, ond bu i Ann ein tywys 'nôl i ymweliadau â Chricieth ar ei beic, i'r Rhyl ar drip Ysgol Sul, ac i'r Eisteddfodau a'r ysgol, gan ddiolch yn anad dim am y gymdeithas a'r blas ar fyw a gafodd yn yr ardal hardd hon o Gymru.

Rhannodd Elenid Jones beth o hanes teulu Cwm-cou, gan ddechrau'r daith â'r cyswllt morwrol gan ddangos telesgop ei thad-cu, a dweud fel y bu iddo fynd rownd yr Horn ar ei fordaith gyntaf - ac ni ddychwelodd nôl adref am gyfnod o 3 blynedd. Cafodd ei long ei difrodi gan dorpido yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd 1af, a chafodd ei gydnabod am aros gyda'r llong a'i hebrwng i fan diogel. Cred Elenid o hyd nad yw hanes bywyd "gwragedd y morwyr" wedi ei groniclo yn ddigonol, a bu iddi adrodd hanes dirdynnol Mei fach, merch ei thadcu a'i mam-gu, yn dioddef o lid yr ymennydd, yn marw heb i'w thad wybod, a "mandolin" yn cyrraedd ei chartref fel anrheg ganddo ar yr union ddiwrnod hwnnw! A dyna'r trysor oedd ganddi i'w arddangos - a thrysor o stori i'w ganlyn.

Aeth Ifan Roberts ar drywydd tra gwahanol, gan gydnabod ei ddiléit mewn chwarae hefo tân! Wel hwyrach bod hynny yn mynd â peth i'r eithafion braidd, ond ar fy ngwir bocsys matsus oedd byrdwn ei sgwrs. Wyddwn i ddim o'i hoffter o "England's Glory" o'r blaen, ond cafwyd disgrifiad manwl o glawr y bocs gyda'r llong ryfel "HMS Devastation" yn ganolbwynt iddo. Ond fel pob storïwr da roedd 'na dro yng nghynffon y cyfan, pan eglurodd ei fod wedi casglu'r bocsus yma oherwydd y cefn ac nid eu cloriau! A wir i chi, ar gefn y bocsus ceid penillion, diarhebion, a dywediadau yn y Gymraeg! Ac nid dyna'r diwedd chwaith, oherwydd, roedd tric ganddo (yn llythrennol) i fyny ei lawes i'w chwarae â'r gynulleidfa - ond bydd rhaid i'r gweddill ohonoch ddisgwyl tan ryw bryd eto cyn rhannu'r gyfrinach honno!

Judith Evans oedd yr olaf i gyflwyno ei thrysorau - a hithau bellach wedi ymddeol fel fferyllydd, nid oedd yn syndod o gwbl mai i'r byd hwnnw y'n harweiniwyd. 'Roedd cyfres o boteli a jariau'r fferyllfa yn ei meddiant, wedi dod o'i siop yn y Barri, a'r busnes gwreiddiol yno yn deillio'n nôl i 1888. Cawsom ein tywys trwy'r enwau cyfrin ar y poteli a'r jariau, y defnydd a wnaed o'r cynnyrch i baratoi meddyginiaeth, a'r clefydau a'r cyflyrau a fyddai'n cael gwella o'u cymryd. 'Roedd y poteli gwydr gwyrdd yn dal gwenwyn, a'r botel las - wel, fe soniwyd am baratoi affrodisiac o'r pwdwr oedd ynddo! Bydd rhaid holi Judith yn fwy manwl am hynny siŵr o fod....!

Gwerthfawrogir croeso'r Clwb Rygbi yn ein cartrefu unwaith yn rhagor y tymor yma.

Noson i'w chofio.

Cylch Cadwgan

10 Mawrth 2022, nos Iau, 7.30
Delweddau o Cynan
Yr Athro Gerwyn Williams
Trefnir gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant
Cyfarfod Zoom

Mae Cylch Cadwgan yn bartneriaeth rhwng Bethlehem, Gwelodd y Garth; Tabernacl, Efail Isaf; Cangen y Garth, Merched y Wawr; Clwb y Dwrlyn a Chymdeithas Gymraeg Llantrisant.

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Mae'r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis. I dderbyn y ddolen i ymuno ar Zoom anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James:
JamesEW@caerdydd.ac.uk

Gwener, 18 Mawrth 2022
Sgwrs gan Dr Siwan Rosser ar y testun 'Darllen y Dychymyg', sef teitl ei chyfrol ddiweddar ar lenyddiaeth Gymraeg i blant a gyrhaeddodd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn 2021.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Martin West, Nant y Felin sydd wedi derbyn triniaeth i'w glun yn ddiweddar. Mae wedi dechrau cerdded o amgylch strydoedd y pentre'n barod. Fe fyddi di nôl yn chwarae golff ymhen dim. Pob hwyl iti.

Mae Brengain Rhys, Penywaun wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty ym Mangor, ond mae'n dda medru dweud ei bod hithau hefyd yn gwella ac yn barod i fynd nôl i'r Coleg ym Mangor.

Yn anffodus mae John Edwards, Penywaun, yn dal yn yr ysbyty ac wedi ei drosglwyddo i Ysbyty Cwm Rhondda yn Llwynypia.

Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch.

Neges i godi calon
Gwelwyd nifer o addurniadau ar ffurf calonnau yn cael eu harddangos ar draws y pentref i ddathlu Dydd Santes Dwynwen. Roedd neges bwrpasol ar bob addurn. Diolch i blant Ysgol Sul y Tabernacl, o dan arweiniad Eleri Mai am y syniad hyfryd i gyflwyno neges i godi calon mewn cyfnod digon diflas yn ein hanes.

Tipyn o Daith!
Mae Geraint a Caroline Rees, Penywaun wedi mynd am wyliau bach i gyfandir Affrica. Maent yn treulio rhyw bythefnos yn Nhanzania gyda'i merch Gwenno sydd yn athrawes yn Ysgol Ryngwladol Mwanza.

Y TABERNACL
Brysiwch Wella
Dymunwn yn dda i Eirian Rowlands sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddi.

Yr un yw ein dymuniadau i Steffan mab Awen a Rhys Evans a dorrodd ei goes wrth chwarae pêl-droed. Brysiwch wella eich dau.

Gweithgareddau'r Tabernacl
Mae gweithgaredd hynod o brysur yn Y Tabernacl yn wythnosol. Bydd cyfle i'r plant lleiaf a'u rhieni, Teidiau, Neiniau neu warchodwyr i gyfarfod yn y Ganolfan o ddeg o'r gloch tan hanner awr wedi un ar ddeg ar Fore Llun. Bydd cyfle i'r Oedolion gymdeithasu a chael paned a chyfle i'r plant bach i chwarae gyda theganau yn Babi Twm.

Cyfle i blant Blwyddyn 5 a 6 i gyfarfod yn Y Ganolfan ar brynhawn Sul o hanner awr wedi tri tan chwarter i bump i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau yw'r Twmiaid Bach.

A pheidiwch anghofio amrywiol weithgareddau'r Ysgol Sul.

Mae'r Twmiaid, sef y bobl ifanc yn cyfarfod ar nos Sul o bump o'r gloch tan hanner awr wedi chwech yr hwyr.

Bydd cyfle i'r oedolion gael Paned a Chlonc neu goffi a Sgwrs bob bore Mawrth o hanner awr wedi deg y bore tan ganol dydd. Croeso i bawb i'r Ganolfan.

Pan ddaw'r tywydd yn braf cyd cyfle i fynd i eistedd yn yr ardd gymunedol a grëwyd gan griw gweithgar Fore iau.

Felly doedd dim rhaid i neb o aelodau'r Tabernacl na'r gymuned leol deimlo'n unig - mae digon o weithgareddau i bob oed!

Taith y Twmiaid i gopa'r Garth

Camp y Twmiaid
Mae'r Twmiaid wedi bod wrthi'n brysur drwy fis Ionawr yn cadw'n heini ac ar yr un pryd yn codi arian at achos da.

Lansiwyd eu hymgyrch, Iechyd Da, yn blygeiniol fore Dydd Calan gan benderfynu cerdded, rhedeg, nofio neu seiclo 700 cilomedr, sef y pellter sy'n cyfateb i deithio ar hyd llwybr yr Arfordir o Aberteifi i Gas-gwent. Yr elusen oeddent yn cefnogi oedd 2WISH. Elusen a sefydlwyd er mwyn cynnig cefnogaeth i rieni yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn ifanc. Sefydlwyd yr elusen gan Rhian Burke, Meisgyn, er cof am ei mab, George a gollwyd yn sydyn o salwch annisgwyl. Penllanw'r ymgyrch oedd taith gerdded i gopa'r Garth, fore Sul, Ionawr 30ain. Roedd y targed heriol o 700 cilomedr wedi ei gyrraedd ymhell cyn y bore Sul a'r criw brwdfrydig a gerddodd i gopa'r Garth yn llawen a bodlon iawn. Llongyfarchiadau gwresog i'r Twmiaid a'i harweinydd, Eleri Mai, ar gyflawni'r campwaith ac am godi'r swm o £800 i'r elusen 2WISH.

Elusennau'r Tabernacl
Yn ogystal â'r cyfraniadau hael o ddanteithion a nwyddau hylendid, dillad, celfi ac offer a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn bydd elusennau lleol yn elwa'n fawr o haelioni'r aelodau. Mi wnaeth Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Cymorth i Ferched, Cwtch ac Ysgol Tŷ Coch dderbyn sieciau gwerth £825 yr un. Cyflwynwyd £500 o dalebau i bobl ifanc oedd yn gadael gofal a £200 i bedair hostel.

Mae'r eglwys yn cefnogi'r ddau fanc bwyd lleol, sef Banc Bwyd Salem a Banc bwyd Taf Elái yn gyson yn ystod y flwyddyn.

Cylch Cadwgan
Tro y Tabernacl oedd cynnal cyfarfod Cylch Cadwgan ar nos Wener 11 Chwefror, ac un ohonom ni oedd y siaradwraig – Glenys Roberts. Roedd cryn edrych ymlaen at ei chlywed, a chafodd y gynulleidfa (rhyw 50 trwy gyfrwng Zoom) mo'u siomi. I'r gwrthwyneb, cafwyd gwledd, gyda Glenys yn cyflwyno'i hoff gerddi – o Mererid Hopwood i Dafydd ap Gwilym gan gynnwys R. Williams Parry, Waldo Williams a T.H. Parry-Williams. Yn ogystal, darllenodd un gerdd o'i heiddo sy'n crynhoi profiad cynnes Iwan West tra oedd yn ddisgybl yn Uned Addysg Arbennig Ysgol Glantaf. Diolch yn fawr, Glenys, am ddarllen a dadansoddi rhai o'th hoff gerddi gan ymestyn a dyfnhau ein gwerthfawrogiad o brofiadau'r beirdd. RW

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mawrth
Mawrth 6ed Iwan Rowlands a Ceri Anwen
Mawrth 13eg Y Parchedig Aled Edwards a Bethan Guilfoyle
Mawrth 20fed Rowland a Marian Wynne
Mawrth 27ain Y Parchedig Gethin Rhys a Huw Roberts, Creigiau

Cofio Betsi

Dywedodd y Parchedig Rachel Wheeler yn angladd Betsi Griffiths mai'r Gymraeg oedd ei bywyd hi. Ac yn Nhonyrefail a'r Gilfach Goch, rydyn ni i gyd mor ddiolchgar iddi hi am ei gwasanaeth fel pennaeth cyntaf Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Bu'n rhan o drosglwyddo'r Gymraeg i gannoedd o blant yr ardal a bu'n gwasanaethu fel llywodraethwraig yn yr ysgol yn ddi-dor ers iddi hi ymddeol. Cewch ddarllen mwy am ei gwasanaeth i'r ysgol yng ngholofn Ysgol Gymraeg Tonyrefail.

A thrwy'r Gymraeg y des i i'w hadnabod a chael y pleser o fynd â hi i giniawau di-rif. Cinio Gŵyl Dewi oedd y ffefryn achos câi gyfle i wisgo ei sgert frethyn, fel y gwelwch yn y llun ohoni a dynnwyd yng Nghinio Gŵyl Dewi Cymdeithas Gymraeg Llantrisant yn 2009. Wrth ei chodi y tu allan i'r tŷ yn y Gilfach, byddai hi'n aml wedi bod mewn un cinio yn barod y diwrnod hwnnw. Ond roedd hi wrth ei bodd gyda'r ciniawa a'r cymdeithasu. Cawson ni sawl ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol, hyd yn oed yn y blynyddoedd diweddar pan oedd angen trefnu sgwter iddi hi fynd o gwmpas y Maes. Ond doedd hi byth eisiau colli mas ar y cyfle i gael clonc gyda hen ffrindiau. Un o freintiau mwyaf ei bywyd oedd cael ei derbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd.

Symudodd ei theulu i'r Gilfach am fod ei thad yn gyfrifol am godi'r stad dai a elwir yn Garden Village yn y Gilfach. Gadawodd y pentref i fynd i Goleg y Normal ym Mangor ac wedyn treuliodd flwyddyn yn Aberystwyth yn gwneud cwrs oedd yn torri tir newydd wrth baratoi athrawon i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond yn ôl i'r Gilfach y daeth hi, ac i gartref y teulu. A thra'n cytuno mai'r Gymraeg oedd ei bywyd hi, roedd hi hefyd yn cyfrannu'n llawn at ei chymuned. Yn aelod o'r grŵp hanes, y grŵp cwiltio a chapel Moreia i enwi ond ychydig, doedd hi byth gartref. Roedd hi'n drysorfa fyw o hanes lleol a byddai wrth ei bodd yn cael cynulleidfa i wrando ar ei hanesion.

Câi bleser mawr o dreulio amser yn y garafán yn Aberaeron a braf iawn oedd darllen sylwadau ei chymdogion yn y garafán nesaf ar Facebook yn ddiweddar. Byddai Betsi'n mynd mewn atyn nhw am sgwrs gyda'r nos a gadael yn oriau mân y bore, gan suddo'n ddyfnach i'w chadair yn y garafán wrth i'r noson fynd yn ei blaen. I bawb oedd yn ei hadnabod, mae'r darlun yn un byw.

Rhaid cloi trwy ddiolch i bobl y Gilfach am ofalu amdani, yn enwedig Dawn Walters. Yn y pendraw, ni allai fyw gartref ar ei phen ei hun ac aeth i fyw gyda'i chefnder yn Cross Hands. Diolch i Peter a Jocelyn am eu caredigrwydd hwythau.

Diolch am fywyd Betsi – am ei gofal, ei synnwyr digrifwch a'i chariad at ei chymuned a'i gwlad.

Helen Prosser

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Colli Betsi

Daeth nifer fawr o bentrefwyr a chyfeillion i angladd Betsi Griffiths ar 16eg Chwefror. Roedd Betsi wedi byw yn y pentref gydol ei hoes, heblaw am ddyddiau coleg, ac wedi cefnogi llu o gymdeithasau a gweithgareddau yn y pentref. Bu'n ohebydd Gilfach Goch i Tafod Elái am dros 20 mlynedd gan ddilyn Katie Olwen Pritchard. Bu'n gefnogol i'r Urdd a'r Eisteddfod ac i'r Fenter Iaith. Diolch i'r Parch Rachel Wheeler am arwain yr angladd yn Amlosgfa Llangrallo ac i Helen Prosser am y deyrnged sydd ar y dudalen hon.

Tyrbin Gwynt yn Difrodi

Yn ystod oriau man bore ddydd Llun, 14 Chwefror roedd sŵn rhyfedd i glywed yn y pentref fel petai modur yn troi yn y pellter ond nid oedd yn amlwg i unrhyw un beth oedd yr achos ac yna tua 7 y bore fe newidiodd y sŵn fel un curiad mawr o daranau ac yna tawelwch. Roedd polyn dur cadarn wedi torri a tyrbin gwynt o Fferm Wynt Pant Wal wedi cwympo i'r llawr. Mae Huw Irranca Davies, Aelod o'r Senedd dros Ogwr, wedi gofyn i berchnogion y fferm wynt wneud ymchwiliad i'r digwyddiad a sicrhau diogelwch yr 16 tyrbin arall.

Llun: Gerald Keogh

Ar yr Awyr

Rydym wedi clywed amryw o'r ardal ar y Radio a'r Teledu yn ddiweddar.

Roedd Gwenan Rosser, Pentyrch yn trafod sefydlu ei busnes newydd, 'Teidi', ar raglen Shan Cothi. Mae Gwenan yn datblygu gwasanaeth proffesiynol tacluso ac ad-drefnu er mwyn i bobl allu rheoli eu cartref eu hunain a gwybod ble mae popeth.

Tad a mab oedd yn sgwrsio Dros Ginio gyda James Williams. Mae Eirian Rees a'i fab, Heulyn, yn byw ar yr un stryd yn Efail Isaf. Magwyd Eirian yn unig blentyn ym mhentref Tŷ Croes ger Rhydaman. Pentref cwbl Gymraeg ar gychwyn y 1950'au gyda naw o siopau bach a dwy siop sglodion. Ond newidiodd y pentref wrth i'r pyllau glo orffen. Mae Heulyn wedi gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg fel athro Cymraeg, gyda'r Urdd ac yng Nghanolfan Garth Olwg. Nawr mae'n brif-weithredwr Menter Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd yn cofio pobl hŷn Efail Isaf yn siarad Cymraeg ac mae llawer o bobl wedi symud i'r pentref oherwydd bod bywyd Cymraeg yn yr ardal.

Ar 'Pnawn Da' bu Martin Huws yn tywys Yvonne Evans o gwmpas rhai o strydoedd Ffynnon Taf. Ger safle capel Tabernacle bu'n sôn am Landeg White mab gweinidog y capel. Roedd Landeg yn academydd a bardd a fu'n gweithio yn Trinidad, Malawi, Caerefrog a Phortiwgal. Roedd yn arbenigo yn niwylliant ac ieithoedd Affrica. Gwnaeth gymaint o argraff gyda'i waith ym Mhortiwgal bu dwy funud o dawelwch yn Senedd Lisbon i'w coffáu yn 2018. Gorffennwyd taith Martin yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf a chofio am Bleddyn Williams un o'r Canolwyr Rygbi gorau a fu erioed.

Ysgol Tonyrefail

Cofio Miss Betsi Griffiths

Gyda'r newyddion hynod o drist am farwolaeth Miss Betsi Griffiths, daeth diwedd ar gyfnod arbennig iawn yn hanes Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Mae nifer y cyn ddisgyblion a'u teuluoedd sydd wedi talu teyrnged iddi a rhannu atgofion melys o'i chyfnod fel prifathrawes yn yr ysgol, yn dyst o hyn. Mae gwaddol cyfnod Betsi fel prifathrawes yn yr ysgol yn dal yn gryf - sef pwysigrwydd yr ymdeimlad teuluol a'r ethos garedig a gofalgar. "Menyw hyfryd a charedig," - dyna'r geiriau a ddywedwyd dro a'r ôl tro wrthyf wrth rannu atgofion amdani.

Un atgof a gafodd ei rannu'n aml oedd cymaint yr oedd Betsi yn hoff o amser chwarae gwlyb! Byddai yn casglu'r holl ddisgyblion at ei gilydd i'r neuadd, eistedd wrth y piano i gyfeilio, ac yna'n morio canu caneuon Cymraeg gyda'r plant. Roedd y trip i wersyll yr Urdd Llangrannog yn un o hoff ddigwyddiadau'r flwyddyn i Betsi, roedd ganddi fwy o egni yn aml na'r athrawon ifanc, a byddai wrth ei bodd yn hel atgofion fin nos am ei chyfnod fel 'swog' yn y gwersyll.

Roedd ei chymuned yn bwysig i Betsi ac fe wnaeth gymaint i sicrhau fod plant ac



Croesbwyth o waith Mrs Siw Thomas a gyflwynwyd i Betsi

oedolion yr ardal yn gwybod am yr hanes cyfoethog sydd yn perthyn i gymunedau Gilfach Goch a Thonyrefail. Mae ei chyfraniad i dwf yr iaith Gymraeg yn yr ardal yn amhrisiadwy a braf oedd ei gweld yn cael ei derbyn, yn llwyr haeddiannol, i Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol er cydnabyddiaeth am hyn, mi wn cymaint yr oedd hyn yn ei olygu i Betsi.

Mi roedd Betsi yn dal yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol ar ôl ei hymddeoliad – yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn dod i siarad gyda'r plant am ei phrofiadau a hanes lleol ac wrth gwrs yn mynychu cynghorddau a gwasanaethau. Roedd yn draddodiad hefyd i wahodd Betsi i'n cinio Nadolig yn flynyddol. Roedd yn gefn i bob pennaeth a'i dilynodd yn y swydd. Bydd colled fawr ar ei hôl ond coffa da amdani.

Dathliadau Pen-Blwydd yr Urdd

Mae pawb yn yr ysgol yn hynod falch ein bod wedi cymeryd rhan yn nathliadau pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed – a'u helpu i lwyddo i ennill dwy Record Byd!

Dydd Miwsig Cymru

Braf oedd clywed cerddoriaeth Gymraeg yn atseinio yn y dosbarthiadau fel rhan o ddathliadau Dydd Miwsig Cymru. Bu'r plant wrthi yn brysur yn dysgu mwy am

Blwyddyn 1 a 2 yn dathlu

wahanol grwpiau a chantorion ac fe gafwyd dipyn o hwyl wrth ddathlu'r diwrnod drwy gydganu gyda eu hoff artistiaid, a dawnsio wrth gwrs!

Diogelwch y Rhyngrwyd

Cynhaliwyd gwersi i gyd-fynd â diwrnod 'Diogelwch y Rhyngrwyd', aeth y plant ati i greu posteri lliwgar a fydd yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol. Bydd y posteri yn fodd i atgoffa'r plant o'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Blwyddyn 5 yn llunio posteri diogelwch y Rhyngrwyd

Blwyddyn Newydd Lloerol

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am arferion a thraddodiadau yn gysylltiedig â dathliadau'r Flwyddyn Newydd Lloerol. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol a diddorol i ddysgu am y dathliad, gan gynnwys blasu bwyd Tseiniaidd. Plant lwcus iawn!

Y dosbarth Derbyn yn Blasu Bwydydd Tseiniaidd

RSPB: Gwylio Adar yr Ardd

Bu disgyblion Dosbarth Blwyddyn 4 a 5 wrthi yn ofalus yn ddiweddar yn cymeryd rhan yn ymgyrch RSPB: Gwylio Adar yr Ardd. Braf oedd gweld fod yna amrywiaeth eang o adar wedi eu gweld yn ystod y cyfnod cyfrif. Gwelwyd: Robin Goch, Titw Tomos Las, Mwyalchen, Jac y Do, Bran Dyddyn a Gwylan Benddu. Diolch yn fawr hefyd i'r Dosbarth Meithrin am greu bwyd i'r adar a'u gosod ar y coed o amgylch tir yr ysgol.

Arolwg Adar RSPB Dosbarth Bl 4 a 5

Parhad ar dudalen 19 >

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
[Noder: Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn y Festri]

Mis Mawrth 2022:
6 Mawrth – Oedfa Gŵyl Dewi
13 Mawrth – Oedfa dan ofal Rhys ab Owen
20 Mawrth – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
27 Mawrth – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

Mis Ebrill 2022:
3 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
10 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
17 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
24 Ebrill – Oedfa dan ofal Delwyn Siôn

---oooOOOooo---

Yn Hue, Fietnam, ar yr 22ain o Ionawr 2022, yn 95 mlwydd oed, bu farw Thich Nhat Hanh. Roedd degau o filoedd o bobl yn ei angladd, a barhaodd am wythnos gyfan, yn Tu Hieu, un o bagodas mwyaf a hynaf y wlad.

Na, mae'n siŵr fel nifer ohonoch chwithau, 'doedd gen i fawr o syniad pwy oedd y gŵr arbennig yma. Ond fe ddarllenais erthygl goffa iddo, a dod i ddeall ei fod yn un o athrawon mwyaf blaengar crefydd Bwda - yn fynach Zen, yn fardd ac yn ymgyrchydd heddwch.

Bu'n fyfyriwr yn y *Princeton Theological Seminary*, ac yn athro ym Mhrifysgol Columbia, yn yr Unol Daleithiau, cyn dychwelyd i Fietnam yn 1963. Bu'n amlwg yn ei wrthwynebiad i Ryfel Fietnam ac o'r herwydd, bu'n alltud am y rhan fwyaf o'i oes.

Er hynny llwyddodd i sefydlu mudiad, "Bwdiaeth Ymarferol" [*Engaged Buddhism*], a fyddai â'r dasg o adfer pentrefi a ddifrodwyd gan fomiau, yn ail-gartrefu ffoaduriaid, ac yn cynnal ysgolion a chlinigau yn y wlad.

Roedd yn arloeswr Bwdiaeth yn y gorllewin - sefydlodd fynachdy "Pentre'r Eirinen" yn Ffrainc, a bu'n lladmerydd ymarfer "*gwrandawgarwch*" neu "*gofusrwydd*" (*mindfulness*) - sef, yn ôl a ddeallaf, "*y gallu i adnabod a hepgor rhai meddyliau o'n mewn heb ddatgan barn*".

Cafodd strôc yn 2014, a chollodd ei allu i siarad – wedi hynny cafodd ddychwelyd i wlad ei febyd hyd ddiwedd ei oes.

Yn ei waith cyhoeddedig a'i ymddangosiadau cyhoeddus, ei anogaeth oedd "*i gerdded fel petaech yn cusanu'r ddaear gyda'ch traed*".

Meddai, "*dysgwch sut i ddioddef. Ac os gwnewch hynny bydd eich dioddefaint gymaint yn llai. Byddwch wedyn â'r gallu i ddefnyddio eich dioddefaint er creu llawenydd a dedwyddwch. Mae hapusrwydd a dioddefaint yn cyd-fyw*."

"*Mae gobaith yn bwysig, oherwydd gall wneud y presennol yn haws i'w ddygymod. Os y credwn y bydd yfory yn well, gallwn ymgodymu â chaledi'n heddiw.* "

"*Os gallwch osgoi gobeithio, yna gallwch ddod â'ch hunan yn gyfan gwbl i'r presennol, a darganfod bod hapusrwydd eisoes o fewn eich gafael*."

Negeseuon cryf yng nghyd-destun y cyfnod presennol tra bo'r haint o hyd yn cadw cwmni a ni!

Ymgorfforiad o'r meddylfryd uchod ydi'r gerdd isod o waith y gwrthrych (fy aralleiriad i), a gafodd sylw ar y cyfryngau cymdeithasol yn sgil ei farwolaeth.

Deillia'r gerdd o lythyr a dderbyniodd yn cyfeirio at dreisio merch ddeuddeg oed gan fôr-leidr o Wlad Thai. Fe neidiodd hi i'r môr a boddi.

Mewn esboniad, dywed mai "*yr ymateb cyntaf ydi condemnio'r môr-leidr ac ochri gyda'r ferch fach. Gellid yn hawdd felly gymryd gwn a saethu'r môr-leidr yn farw.*

Ond petawn i wedi'm geni ym mhentref y môr-leidr, ac wedi'm codi mewn amgylchiadau tebyg, gallwn i yn hawdd hefyd fod yn fôr -leidr.

Gwelais, wrth fyfyrio, bod cannoedd o fabanod yn cael eu geni yn ddyddiol ar hyd arfordir Siam, ac os na wnawn ni fel addysgwyr, gwleidyddion, ac eraill, ymateb a cheisio newid pethau, gallaf warantu y bydd nifer helaeth ohonynt hwythau hefyd yn tyfu i fod yn fôr-ladron. Os cymerwch wn i saethu'r môr-leidr, byddwch yn saethu pob un ohonom, oherwydd mae pob un ohonom â chyfrifoldeb o ryw fath am y sefyllfa hon."

Yn ôl yr awdur, mae tri o bobl yn y gerdd – y ferch ddeuddeg mlwydd oed, y môr-leidr, ac yntau. A gofynna i'r darllenydd a fedr adnabod ei hun ynddi?

Teitl y gerdd ydi "*Plîs galw fi wrth fy ngwir enwau*" ["Please Call me by my True Names"] oherwydd cred fod ganddo sawl enw, a phan glyw unrhyw un o'r enwau hyn, mae'n gorfod ymateb, a dweud "Ie"!

Paid â dweud y byddaf yn ymadael yfory -
Oherwydd hyd yn oed heddiw 'rwyf yn dal i gyrraedd

Edrych yn fanwl; pob eiliad cyrhaeddaf
I fod yn flagur ar frigyn y Gwanwyn,
I fod yn aderyn bychan, gydag adenydd brau,
yn dysgu canu yn fy nyth newydd,
i fod yn lindys yng nghalon y blodyn
i fod yn em yn cuddio yn y garreg.

'Rwyf yn dal i gyrraedd, er mwyn chwerthin a chrio
I ofni ac i obeithio.

Curiad fy nghalon yw geni a marwolaeth
Popeth sydd yn fyw.

Myfi yw'r pryfyn sy'n trawsffurfio
Ar wyneb dŵr yr afon
A myfi yw'r aderyn
Sy'n plymio a llyncu'r pryfyn.

Myfi yw'r llyffant sy'n nofio'n hapus
Yn nŵr clir y pwll.
A myfi yw neidr y gwair
Sy'n gloddesta'n dawel ar ei gorff.

Myfi yw'r plentyn o Uganda, yn groen ac asgwrn
A'm coesau yn denau fel coedyn bambŵ.
A myfi yw'r masnachwr arfau,
Sy'n gwerthu'r arfau marwol i Uganda.
Myfi yw'r ferch ddeuddeg mlwydd oed,
Yn ffoadur ar gwch bychan,
Sy'n taflu ei hun i'r môr
Wedi iddi ei threisio gan fôr-leidr
A myfi yw'r môr-leidr
A'm calon heb eto y gallu
I weld a charu.

'Rwyf yn aelod o'r politbiwro
Gyda grym digonol yn fy llaw
A myfi hefyd yw'r dyn sy'n gorfod talu
Ei "ddyled o waed" i'm pobl
Sy'n marw'n araf mewn gwersyll llafur gorfodol.

Mae fy llawenydd megis Gwanwyn, mor gynnes
Fel y blagura'r blodau dros y byd i gyd
Mae fy noluriau megis afon o ddagrau
Yn ddigon helaeth i lenwi'r pedwar cefnfor.

Plîs galwch fi wrth fy ngwir enwau
Fel y gallaf glywed fy wylo a'm chwerthin 'run pryd,
fel y gallaf weld fy llawenydd a'm doluriau fel un.

Plîs galwch fi wrth fy ngwir enwau
Fel y gallaf ddeffro,
A drws fy nghalon
Wedi ei adael ar agor,
Yn ddrws tosturi.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Penblwydd Arbennig Iawn

Mae'n anodd credu ond roedd Eirlys Davies yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 ar ddechrau mis Chwefror. Er bod Eirlys a Cerith wedi symud i fyw i Danescourt, mae Eirlys wedi parhau i ddod lan i Bentyrch i gerdded y Garth gyda'i ffrindiau yn rheolaidd ac mor sionc ag erioed. Llongyfarchiadau Eirlys! Rwyt yn ysbrydoliaeth i ni gyd.

Mae'n siŵr bod llawer ohonoch wedi mwynhau cyfraniadau diddorol Eirlys ar y rhaglen "Efaciwîs" ar S4C ar nos Sul yn sôn am ei chyfnod hithe fel efaciwî yn Sir Aberteifi yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau hefyd i Joy Glyn wrth iddi hithau ddathlu pen-blwydd nodedig yn ddiweddar.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ffion a Daniel Rochford ar enedigaeth Talan Siencyn ar ddiwedd mis Ionawr. Mae Mostyn wrth ei fodd bod Siôn Corn wedi ymateb i'w gais am frawd bach ac mae Eiry ac Alan sef Mam-gu a Gramps ar ben eu digon gyda'r ŵyr bach newydd. Dymunwn yn dda i'r teulu yn Nhreganna.

Mostyn a Talan

Bydd nifer ohonoch wedi gweld Mostyn yn serennu yn hysbyseb Dŵr Cymru yn ddiweddar. Mostyn yw'r crwt bach mewn côt las â'r wên ddireidus sy'n dweud wrthym sut y gallwn wneud gwahaniaeth mawr wrth baratoi ar gyfer y gaeaf.

Seren y Gêm

Llongyfarchiadau i Ryan Elias - bachwr Cymru - sydd bellach yn byw ym Mhentyrch, ar ei berfformiade hyd yn hyn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Rodd hi'n dipyn o her i lenwi sgidie'r Sheriff - Ken Owens sy wedi ei anafu - ond mae Ryan wedi gwneud hynny'n llwyddiannus dros ben, yn enwedig yn erbyn yr Alban pan gafodd ei enwi'n haeddiannol yn Seren y Gêm. Tipyn o gamp odd cael record 100% yn y lein a'r sgrym - a'r clod mwyaf i'r bachwr. Symudodd Ryan i'r pentre yn ystod y cyfnod clo ac mae'n byw drws nesa lawr i'r King's ar Heol yr Eglwys. Pwy a ŵyr? Os gall e gynnal ei safon, falle caiff ei ystyried yn ddigon da i gael ei ddewis yng nghanol y rheng flân i Bentyrch rywbryd yn y dyfodol!!

Alun Davidson yn derbyn gwobr y Clwb 200 o £200 gan Steve Cooke

Crys arbennig Cymru wedi ei arwyddo gan Jonathan Davies

Lluniau o Ymweliad Criw Ynys Bute (Tudalen 1)

Côr Meibion Taf yn cefnogi'r bagpib.

Ysgol Llantrisant

Cwis Dim Clem
Llongyfarchiadau mawr i Megan, Macs, Math a Gruff o flwyddyn 6 am ennill Cwis Dim Clem Menter Iaith. Bydd y tîm yn cynrychioli sir Rhondda Cynon Taf yn y rownd rhanbarthol yn erbyn timau o Fentrau Caerffili, Casnewydd, Bro Ogwr, Brycheiniog a Maesyfed, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr a Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Pob lwc i bawb!

Pêl-droed yr Urdd
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed y bechgyn ar ennill cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Dywedodd Mr Jones bo'r plant wedi ymddwyn ac ymroi yn wych yn ystod y gemau. Da iawn chi fechgyn. Yn anffodus, bu rhaid gohirio cystadleuaeth tîm y merched oherwydd y tywydd garw ond edrychwn ymlaen at ail-drefnu'r gemau hyn.

Cwmni Theatr Spectacle
Diolch yn fawr iawn i Theatr Spectacle am gyflwyno drama ac am gynnal gweithdy gyda phlant Blwyddyn 6 yn ddiweddar i drin a thrafod emosiynau a theimladau.

Llwyddiannau chwaraeon unigol
Llongyfarchiadau i ddau ddisgybl ar eu llwyddiant yn y byd chwaraeon y mis hwn. Teithiodd Alana i Erddi Soffia, Caerdydd, i gystadlu ym Mhencampwriaeth Trampolîn Ysgolion Cymru. Allan o 5 cystadleuydd arall yn yr un grŵp oedran a lefel, daeth hi'n gyntaf. Gwych!

Hefyd, dyma James yn cystadlu yn ei dwrnamaint pêl-fasged cyntaf yn cynrychioli 'Pontypridd Panthers'. Clywon ni ei fod wedi chwarae yn arbennig o dda gan sgorio i gyfrannu at y canlyniadau 14-12, 24-3 a 17-16.

Yr Urdd yn dathlu 100 mlynedd
Cafodd holl blant yr ysgol hwyl wrth ddathlu pen blwydd yr Urdd yn 100 mlwydd oed. Dysgodd bawb gân "Hei Mr Urdd" a recordio fideo er mwyn helpu'r Urdd i ennill record y nifer mwyaf o fideos yn cael eu llwytho ar Trydar a Facebook gyda'r yn gân yn cael ei chanu. Llongyfarchiadau i'r Urdd!

Gwisgo Coch Dros @Velindre
Diolch i bawb am wisgo coch er mwyn cefnogi elusen Felindre.

IESTYN MEWN DU A GWYN

PETULA
Dwi wedi bod digon ffodus dros y misoedd dwethaf i fod yn Gynghorydd Ifanc ar ddrama newydd aml-ieithog, Theatr Genedlaethol Cymru. Yn brosiect ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales ac August012.

Petula, Drama Ffrangeg yn wreiddiol, sy'n cynnwys cyfeiriadau at gynnwys stori Ffrengig o'r enw 'The Little Prince'.

Mae addasiad y script wedi ei ysgrifennu gan Daf James sef dramodydd ac awdur sy'n adnabyddus am y dramâu Llwyth a Tylwyth a nifer o weithiau ysgrifennu eraill gan gynnwys y gyfres 'Gwaith Cartref'.

Mae'n stori gomedi ac antur am y Gofod wrth chwilio am gariad. Mae'n ddrama am berthnasoedd, iaith a'n gofyn y cwestiwn- "Sut yn y byd wyt ti fod i dyfu fyny â phopeth o dy gwmpas di'n cwympo'n ddarnau?" Weithiau mae'n rhaid mynd i ffwrdd o adref am gyfnod er mwyn dod i ddeall a dysgu sut i ddelio gyda sefyllfaoedd.

Fy rôl i yn y cwmni yw i roi cyngor a barn am y ddrama dros y cyfnod datblygu gyda'r gobaith o allu gwneud y ddrama mor berthnasol ac addas â phosib i bobl dros ystod eang o oedrannau. Dwi hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Social Media 'Gwrw' Ellis Lloyd Jones o Dreorci. Rydym wedi bod yn creu cynnwys digidiol i'w gynnwys ym mhrofiad y ddrama ac ar gyfer hyrwyddo digidol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Allai ddim argymell y ddrama ddigon.

Yn wledd ym mhob diffiniad o'r gair!

Yn brofiad rhyfeddol. rhyngweithiol gyfoes a chwareus. Mewn drama glyfar, gyda chast aml-ddawnus a'n llawn themâu cyfredol ac arbrofol.

Am fwy o wybodaeth neu i brynu tocynnau ewch i wefan Theatr Genedlaethol Cymru neu Theatr y Sherman

Mae hi werth ei gweld!

Iestyn Gwyn Jones

Theatr y Sherman. Mawrth 12 - 19, 7.30yh.
Tocynnau: www.shermantheatre.co.uk

Croeso
Croeso mawr i Erin Williams a Danielle Williams sydd yn fyfyrwyr TAR o brifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd y ddwy yn gweithio gyda phlant Blwyddyn 2 a 6 tan fis Mai.

Digwyddiadau Gaeaf Llawn Lles
Mae rhaglen gyffrous o weithgareddau wedi'u trefnu gan Menter Iaith RhCT dros y misoedd diwethaf fel rhan o fenter Gaeaf llawn Lles Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol ein plant a phobl ifanc 0-25 oed. Mae menter Gaeaf llawn Lles yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol y tu allan i ddysgu ffurfiol. Hefyd, gyda gweithgareddau am ddim ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws Cymru gyfan, mae rhywbeth addas i bawb.

Cynhaliwyd diwrnod o ddathlu yn yr Hen Lyfrgell Porth ar gyfer Dydd Miwsig Cymru gyda chwis a pherfformiad byw gwych gan Iestyn Gwyn Jones a'r band, Noson Gwener Gemau, gig a chwis yn y Carpenters i restru rhai. Beth am ymuno â ni ar gyfer un o weithgareddau mis Mawrth?

Dydd Gŵyl Dewi
Bydd yr Hen Lyfrgell yn gweini Te Prynhawn Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a bydd Menter Iaith Rhondda Taf wrth law gyda chrefftau am ddim i ddiddanu'r plant.
Te Cymreig £10 y person
Rhaid archebu ymlaen llaw.
telerij@yahoo.com / 01443 685422

01.03.22 - Noson Gymreig – 17:00-19:00
Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r teulu yn Lolfa Goffi yr Hen Lyfrgell Porth! Gydag adloniant Cymreig, lluniaeth am ddim a chrefftau i'r plant. Rhaid archebu lle o flaen llaw. Am ragor o fanylion cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru.

18.03.22 - Gwener Gemau
Dewch draw i Lolfa Goffi'r Hen Lyfrgell i chwarae gemau bwrdd a defnyddio eich Cymraeg gyda'r teulu! Cyfle i gael hwyl ac ymlacio gyda'r teulu dros ddisgled neu gwrw mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar. Am ddim. Lluniaeth ar gael i'w brynu. Am ragor o fanylion cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru.

Prosiect Medrau Byw
Mae Prosiect Medrau y Fenter, sy'n dathlu sgiliau ein cymuned, yn datblygu ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal ein sesiynau Medrau byw cyntaf yn ystod mis Mawrth. Byddem wrth ein bodd yn gweld chi yn y sesiynau!

14.03.22 – Sesiwn Goginio - Tsili Fegan – 6:30yh
Dewch i goginio gyda'n gilydd! Ymunwch â ni am sesiwn goginio fyw dros Zoom gydag Eluned Davies Scott. Dysgwch sut i goginio swper iachus a blasus yn eich cegin eich hun. Sesiwn am ddim trwy gyfrwng y Gymraeg.

29.03.22 - Clwb Alawon Llantrisant - Sesiwn Flasu – 18:00-19:00
Neuadd Caerlan, Llantrisant
Dewch i ddysgu a chyd-chwarae alawon gwerin Cymreig! Mae Clwb Alawon Llantrisant yn cwrdd unwaith y mis i ddysgu a chyd-chwarae alawon gwerin Cymreig mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar. Mae'r sesiwn flasu ar gyfer unrhyw lefel gallu, unrhyw oedran ac unrhyw offeryn. Sesiwn ddwyieithog am ddim. Rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.

Am ragor o fanylion neu i gofrestru ar y sesiynau -
marged@menteriaith.cymru
Am fwy o fanylion am Prosiect Medrau, ewch i: www.facebook.com/groups/prosiectmedrau

Murlun Mawr Yr Hen Lyfrgell Porth
Agorodd Lolfa goffi Yr Hen Lyfrgell Porth ym mis Mai 2019 a symudodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf i'r swyddfa ar y llawr cyntaf. Mae blaen yr adeilad yn hanesyddol bwysig. Rhoddodd Thomas ac Evans, perchnogion y ffatri bop, yr adeilad i'r Cyngor Sir fel llyfrgell. Wrth yrru mewn i Porth mae ochr yr adeilad yn edrych yn wag, diflas a llwyd. Byddai murlun anferth ar ochr yr adeilad yn croesawu pobl mewn i Porth.

Diolch i gefnogaeth ariannol gan The Ashley Foundation sydd yn cefnogi cymunedau cryf, lles cymdeithasol a chelfyddydau creadigol yng Nghymru - mae nawr yn bosib creu y murlun!

Byddwn ni'n dechrau trwy gasglu syniadau ar gyfer y murlun o'r gymuned a chynnal gweithdai yn y gymuned gydag artist lleol o Dreorci - Sion Tomos Owen. Bydd yr artist wedyn yn creu dyluniad allan o'r syniadau i gyd-fynd gyda hanes a threftadaeth lleol. Ar ôl cytuno ar ddyluniad terfynol gydag adran gynllunio y Sir bydd y gwaith cyffrous o beintio'r murlun yn gallu dechrau!

Bydd hwn yn gofnod parhaol o hanes, diwylliant a threftadaeth Porth diolch i'r Ashley Family Foundation a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.

Os hoffech fanylion pellach neu gyfrannu at y prosiect galwch draw i'r Lolfa Goffi neu e-bostiwch telerij@yahoo.com

Dilynwch ni!
Facebook: @MenterRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct

Argyfwng Costau Byw –
Heledd Fychan AS Canol De Cymru dros Blaid Cymru

Fel y gwyddom ni oll, mae prisiau ynni, tanwydd a bwyd yn cynyddu'n aruthrol. Ynghyd â'r toriad i gredyd cynhwysol a caledi ariannol mae nifer yn ei wynebu yn sgil Covid, mae yna bobl ledled Cymru yn wynebu argyfwng costau byw. Yn anffodus, gwaethygu fydd hyn wrth i brisiau barhau i gynyddu.

Ar yr 17eg o Chwefror, cynhaliais uwch-gynhadledd yn Nhrefforest ar y pwnc hwn gan ddod â sefydliadau sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus ynghyd, megis Cyngor ar Bopeth a banciau bwyd lleol. Fe wnaethom drafod sut y gallem gyd-weithio i sicrhau bod pawb yn derbyn y cymorth sydd ar gael iddynt, a'n bod yn cydweithio i sicrhau bod rhagor o gefnogaeth ar gael.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Plaid Cymru gynllun 5 pwynt i daclo'r argyfwng costau byw yng Nghymru:

Helpu pobl gyda'u biliau ynni - drwy ehangu'r cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf i'r Gwanwyn.

Cefnogi plant a phobl ifanc - drwy gyflymu'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim a chynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Canslo dyled - ôl-ddyledion treth gyngor a dyled prydau ysgol

Cymorth gyda thai - trwy ymestyn y Grant Caledi Tenantiaeth a chapio codiadau rhent tai cymdeithasol a chynyddu'r gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn

Gwrthdroi'r toriad i Gredyd Cynhwysol – a datganoli pwerau dros les

Dengys y cynllun pum pwynt sut y gellir mynd i'r afael â'r argyfwng yn uniongyrchol yma yng Nghymru, i helpu pobl gyda chostau cynyddol, i gapio biliau lle bo'n bosibl, ac i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i bobl mewn gwaith trwy gynyddu gofal plant am ddim.

Yn y cyfamser, os ydych chi, neu unrhyw un rydych yn eu hadnabod, yn wynebu argyfwng neu eisiau cyngor ar unrhyw fater, cofiwch bod croeso ichi gysylltu â fy swyddfa am gymorth un a'i drwy ebostio Heledd.Fychan@Senedd.Cymru neu ffonio 01443 853214.

Ysgol Creigiau

Dathliadau Urdd 100!

URDD 100

Ddydd Mawrth, 25ain Ionawr, ymunodd y disgyblion, ynghyd â 95,000 o blant eraill, yn nathliad pen-blwydd mwyaf yr Urdd. Uwchlwython ni ein fideo o'r disgyblion yn canu 'Hei Mistar Urdd' a helpu'r Urdd i gyflawni dau deitl GUINNESS WORLD RECORDS:

- Y mwyaf o fideos o bobl yn canu yr un gân i gael ei uwchlwytho i Twitter o fewn awr – y record oedd 250 – uwchlwythodd Yr Urdd a'i ffrindiau 1176!
- Y mwyaf o fideos o bobl yn canu yr un gân i gael ei uwchlwytho i Facebook o fewn awr.

Gwych Bawb!

Dosbarth 1 yn dathlu penblwydd Mistar Urdd

Gweithdy STEM

Yn ddiweddar cymerodd disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 ran mewn Gweithdy STEM. Nod y gweithdy oedd dylunio cwch a oedd yn gallu arnofio. Cawsant brofiadau a sgiliau STEM gwerthfawr. Diolch i Richard o Raglen Peirianneg Forol am gyflwyno'r sesiynau gwych.

Gwylio Adar yr Ysgol

Fel rhan o'u Cyd-destun Dysgu bu disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 yn brysur yn arbrofi gyda lard i weld sut mae blwber yn helpu anifeiliaid yr Arctig i gadw'n gynnes yn y môr rhewllyd. Ailddefnyddiwyd y lard i greu bwydwyr adar ar gyfer 'Gwylio Adar yr Ysgol' y RSPB ddiwedd mis Ionawr. Aeth y disgyblion â'r bwydwyr adref er mwyn iddynt ddenu adar i'w gerddi eu hunain.

Dosbarth 5 yn cymryd rhan mewn sesiwn Gwylio Adar yr Ysgol y RSPB

Dydd Miwsig Cymru

Ddydd Gwener, 4ydd Chwefror, dathlon ni Ddydd Miwsig Cymru yn yr ysgol. Mwynheuodd y disgyblion wisgo i fyny a gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Casglon ni £291.73 ar gyfer Cyfeillion yr Ysgol.

Dosbarth 4 yn mwynhau Dydd Miwsig Cymru

Maint Cymru

Daeth Nigel Little, o'r elusen 'Maint Cymru' i weld disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 i blannu ychydig o goed gyda nhw. Yn dilyn llwyddiant rhagorol disgyblion Blwyddyn 5 yn eu cystadleuaeth cerdyn e-Nadolig, a enillwyd gan Betrys, trefnodd Nigel ymweliad i blannu coed afalau gyda'r disgyblion. Yna, bu'n diddanu'r disgyblion gyda chwis coedwig law hwyliog - roeddynt i gyd wrth eu boddau.

Twrnamaint Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i'r Tîm Pêl-rwyd am chwarae mor arbennig yn Nhwrnamaint yr Urdd yng Nghanolfan Chwaraeon Talybont yn ddiweddar. Cyrhaeddon nhw rownd yr wyth olaf. Roedd Mrs Hussey yn falch iawn o'u hymdrechion – gwych ferched!

Prif Fardd Eisteddfod Caerdydd

Llongyfarchiadau i Martin Huws, Ffynnon Taf, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Caerdydd 2022 ar 22 Ionawr.

Darlledwyd Seremoni'r Cadeirio ar y we oherwydd y cyfyngiadau. Roedd 17 wedi cystadlu a daeth Martin i'r brig am ei ddilyniant o gerddi ar y testun: Cadw.

Martin Huws hefyd enillodd Medal y Prif Lenor am ddarn o ryddiaith ar y testun: Croesffordd. Roedd 14 wedi cystadlu.

R.Alun Evans yn llywio Seremoni y Cadeirio

Dosbarth 5 yn plannu Coeden Afal

Twrnamaint Pêl-rwyd yr Urdd

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

Beth am ychwanegu amrywiaeth at eich llysiau gaeaf?

Dwi'n parhau gyda chyflwyno 'chydig o hanes llysiau a ffrwythau sydd yn eu tymor, rhai sydd efallai yn llai adnabyddus neu boblogaidd. Tybed faint o honoch chi sy'n defnyddio Artisiog Jerwsalem*? Maent ar eu gorau o fis Hydref i fis Mawrth ac yn cynnig blas unigryw sy'n felys, cneuog ac ychydig fel madarch. Mae Adam Yn Yr Ardd yn awgrymu eu bod yn hawdd i'w tyfu.

Fel gyda'r rhan fwyaf o fwydydd, mae ganddynt hanes ddiddorol. Nid ydynt yn artisiog go iawn nag yn dod o Jerwsalem. Cloronau ydynt sy'n perthyn i flodyn haul gyda'i tharddiad yng ngogledd America. Cyfrannodd disgrifiad yr archwiliwr, Samule deChaplain i'r enw dryslyd yn 1603 pan awgrymodd fod ganddynt flas tebyg i artisiogau. Mae Alan Davidson yn nodi (*The Oxford Companion to Food)* mai'r esboniad arferol yw bod 'Jerwsalem' yn llygredigaeth o '*girasole*' sef enw Eidalaidd ar y blodyn haul. Credir bod y rhanbarth brodorol gwreiddiol i'r gogledd o Ganada i Georgia, ac i'r gorllewin i Arkansas a Tennessee lle mae'n cael ei dyfu ar gyfer ei flodau haul melyn yn ogystal ag ar gyfer ei gloronen fwytadwy. Mae enwau a roir iddynt yng ngogledd America yn fwy priodol, sef - *sunroot, sunchoke, wild sunflower, topinambur* ac *earth apple.*

Cafodd y cloronau dderbyniad brwdfrydig yn Ewrop ar y dechrau, gyda'i flas melys chwilfrydig yn arwain at ei defnydd mewn seigiau melys yn fwy nag fel llysieuyn. Cyflwynwyd y cloron i Brydain yn 1616 o'r Iseldiroedd. Gyda'i dueddiad i achosi sgîl-effeithiau anffodus fe gollodd boblogrwydd yn fuan er ei fod yn parhau i fod yn eithaf poblogaidd yn Ffrainc hyd heddiw.

Inulin, sef carbohydrad tebyg i ffrwctos, sy'n rhoi blas ychydig yn felys i'r llysieuyn. Yn anffodus nid oes gennym yr ensymau i'w dreulio, un effaith o hyn i'w fod carbon deuocsid yn cael ei gynhyrchu yn y colon mawr sy'n arwain at wynt gormodol! Mae'n rhaid bwyta llawer iawn i achosi anghysur difrifol ac mae cyfuno artisiogau Jerwsalem â llysiau eraill e.e. gwneud stwnsh gyda thatws, eu piclo neu eu berwi â sudd lemwn yn gwneud hi'n bosibl i osgoi'r ôl-effeithiau.

Mae'n llysieuyn eitha maethlon gan gynnwys thiamin, niacin, haearn, a charbohydradau. Os am roi tro ar eu defnyddio mae'n well prynu clorennau gyda siâp eithaf llyfn sy'n eu gwneud yn rhwydd i'w plicio. Gallwch hefyd eu rhoi i sefyll mewn dŵr oer am tua 20 munud cyn eu sgrwbio i gael gwared ag unrhyw bridd a'u defnyddio yn eu crwyn.

Gallwch rostio, stemio, berwi'n gyfan am 15-20 munud neu wedi'i sleisio gyda gwasgfa o sudd lemwn am 5-10 munud. Mai'n bosibl eu gwneud yn sglodion hefyd trwy eu sleisio, taenellu ag olew a halen cyn pobi. Yn amrwd gall eu gratio neu sleisio'n denau i ychwanegu gwead i salad gwyrdd. Mae Jamie Oliver yn awgrymu eu rhostio'n gyfan a gweini gydag olew tsili a chig moch wedi'i fygu. Maent hefyd yn gyfeiliant da i gorbenfras wedi'i fygu, porc a chig hela. Mae llawer o rysetiau yn cyfuno'r llysieuyn gyda garlleg, rhuddygl poeth, perlysiau fel teim, saets, rosmari, dail llawryf a hefyd yn amrwd mewn salad gydag orennau gwaed a chaws feta. Mae nifer o rysetiau ar gael am gawl sy'n ychwanegu llysiau eraill fel cennin Pedr, moron, seleri a thatws; hefyd pwdin gwaed, cig moch wedi'i fygu, olew Tryffl a chyw iâr.

Yn ôl at Adam. (*Diolch iddo am gyflwyno'r enw Cymraeg i mi - sef Gellyg y Ddaear, sy'n debyg i un o'r enwau Americanaidd) Dyma'r cyfarwyddiadau gefais ganddo am eu tyfu -

"Mae modd tyfu Artisiog Jerwsalem neu Ellyg y Ddaear yn weddol hawdd yng Nghymru - planhigion gwydn sy'n dod â chnwd da a hynny'n ddidrafferth. Bydd angen dod o hyd i leoliad addas (yn ddelfrydol mewn cornel fach wyllt o'r ardd lle nad oes ots eu bod yn lledu) neu mewn potyn i'w cadw dan reolaeth! Plannwch y tiwberau/ clorennau yn gynnar yn y gwanwyn o gwmpas mis Ebrill yn gywir fel byddech chi'n plannu tato twll tua 6 modfedd o ddyfnder. Gadewch fwlch o ryw droedfedd rhwng pob tiwber/cloronen. Maen nhw'n gallu tyfu yn dal iawn, yn perthyn i deulu'r blodyn haul felly os yn fan gwyntog, rhowch ffyn bambŵ neu strwythur i'w cefnogi.

Cofiwch eu dyfrio'n gyson rhwng mis Gorffennaf a Medi pan fydd tywydd sych ac ymhen pen dim bydd y cnwd yn barod i'w cynaeafu ym mis Tachwedd. Gallwch adael y tiwberau yn y ddaear yn ystod y gaeaf a'u cynaeafu fel y bo angen. Gallwch blannu'r tiwberau/clorennau i greu planhigion newydd i'r tymor nesaf.

Clwb Chat Cymraeg Yr Hen Lyfrgell Porth

Mae Clwb dysgu Cymraeg Lolfa Goffi Yr Hen Lyfrgell Porth yn mynd o nerth i nerth. Dechreuodd y grŵp ym mis Medi ac mae criw ffyddlon a brwdfrydig yn cwrdd yn wythnosol rhwng 10.30am a 12 ar ddydd Gwener mewn awyrgylch anffurfiol llawn hwyl.

Yn ôl Teleri Jones perchennog y Lolfa Goffi yn Yr Hen Lyfrgell Porth "Ers i ni agor mae nifer o drigolion lleol wedi bod yn holi am wersi Cymraeg ac fe wnes i ddechrau casglu enwau. Doedd nifer ddim eisiau gwersi ffurfiol yn syth felly nes i benderfynu hysbysebu am rywun fyddai yn fodlon arwain y grŵp. Ni mor lwcus fod Gari Bevan (cyn enillydd dysgwr y flwyddyn yn Eisteddfod Meifod yn 2015) wedi cytuno arwain. Mae e'n wych ac mae'r dysgwyr wrth eu bodd yn ei gwmni.

Mae 3 siaradwr newydd arall gyda ni hefyd sydd yn helpu yn wythnosol. Mae Fred a Lillian wedi bod yn dod i'r Lolfa Goffi bob dydd Iau rhwng 10am-12, i sgwrsio yn Gymraeg. Mae'r grŵp yma wedi bod yn mynd ers blynyddoedd ac mae croeso i unrhywun sydd eisiau defnyddio eu Cymraeg i ddod draw. Kelvin yw'r cynorthwyydd arall. Mae yn byw yn lleol ac wedi dysgu Cymraeg ers symud nôl i'r ardal. Rwy mor ddiolchgar iddynt am gynorthwyo gyda'r grŵp 'Chat Cymraeg' bore Gwener."

Dewch draw am baned – bore Gwener am 10.30am yn Lolfa Goffi Yr Hen Lyfrgell Porth, 47 Heol Pontypridd, Porth, CF39 9PG

Gellyg y ddaear wedi eu rhostio gyda garlleg, rosmari a sudd lemwn sy'n flasus gyda phorc.

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Geraint Lewis, awdur Llyfr y Mis, *Lloerig*, y nofel ddaeth yn ail agos yn y Fedal Ryddiaith yn 2021. Dywedodd un o'r beirniaid, Rhiannon Ifans, ei bod hi'n 'nofel graff sy'n torri tir newydd'.

Beth yw eich gwaith?
Sgriptiwr teledu, yn bennaf i'r gyfres *Pobol y Cwm*.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Ysgrifennu i gyfryngau eraill, radio, theatr, llyfrau. Wedi actio cryn dipyn dros y blynyddoedd hefyd e.e. Sianco yn y ffilm deledu *Martha, Jac a Sianco*.

O ble rydych chi'n dod?
Tregaron, Ceredigion.

Ble rydych chi'n byw nawr?
Aberaeron, Ceredigion.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Do. Roedd bod mewn ysgol uwchradd weddol fach fel Tregaron yn golygu bod rhaid i bawb gymryd rhan yn rhan fwya gweithgareddau'r ysgol. Fe ges i lot o hwyl a dysgu llawer yn fy nghyfnod tair blynedd ym Mhrifysgol Aberystwyth hefyd (graddio mewn Saesneg a Drama).

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi'n llenyddol?
Pan oeddwn i'n iau Tsiecoff a Sean O'Casey ar gyfer gwaith llwyfan a Tsiecoff a Joyce ar gyfer rhyddiaith. Yn ddiweddarach, amlygwyd hoffter mawr o lenorion Iwerddon, o Roddy Doyle a Colm Tóibín i Kevin Barry a Claire Keegan.

Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?
Tair nofel, *X, Daw Eto Haul* a *Haf o Hyd* (Carreg Gwalch) a thair cyfrol straeon byrion, *Y Malwod* (Annwn), *Brodyr a Chwiorydd* (Y Lolfa), a *Cofiwch Olchi Dwylo* (Carreg Gwalch). Mae rhai o'm dramâu llwyfan wedi eu cyhoeddi hefyd, gan gynnwys *Y Cinio, Ysbryd Beca* a *Dosbarth.*

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu *Lloerig*?
Darllenais i erthygl bapur newydd yn sôn am ystadegau truenus hunan-laddiad ymhlith dynion ifanc ac wedyn mynd ati i ymchwilio mwy i'r pwnc. O'n i'n meddwl ei fod e'n faes pwysig i ddelio ag ef yn storïol.

Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?
Cymeriad gen i bob tro. Efallai oherwydd fy nghefndir actio.

Beth oedd y broses sgrifennu? Beth oedd y mwynhad mwya a'r heriau mwya?
Wy'n dueddol o neud ychydig nodiadau cyn cychwyn ond trio peidio glynu wrthyn nhw'n ormodol. Unwaith wy'n dechrau sgrifennu wy'n weddol glou wedyn, fel arfer yn y stydi o naw tan bump.

Rwy'n deall taw un frawddeg yw'r nofel. Pam?
Pam lai? Yn raddol, wy wedi canfod apêl ffurf ysgrifennu llif yr ymwybod, lle mae meddwl y prif gymeriad yn ehedeg yma ac acw yn ddi-stop. Bu'n broses hir o dyfu'n naturiol o ysgrifennu ymsonau theatr a monologau radio ond mae'r arddull yn apelio'n fawr ataf. Mantais fawr y ffurf yw eich bod chi a'r darllenydd yn gallu mynd yn syth i feddwl y cymeriad.

Beth sy'n gwneud stori dda?
Rhywbeth sy'n gafael ynddoch chi ac yn eich difyrru ac, yn amlach na pheidio, yn mynd ar ryw drywydd annisgwyl. Dwi'n meddwl bod y dyheu hyn am stori yn ddwfn iawn ym mhob un ohonon ni.

Beth yw eich barn am fyd y nofel yng Nghymru?
Iachus iawn. Mae rhychwant eang dros ben o ddeunydd cyffrous iawn mewn sawl *genre* gwahanol. Mae'n galonogol iawn gweld to iau fel Manon Steffan Ros ag Ifan Morgan Jones yn hen stejars disglair erbyn hyn. Ar ben hynny, mae awduron dawnus fel Megan Angharad Hunter a Llio Maddocks yn cychwyn eu gyrfaoedd mewn ffyrdd mor gyffrous (gyda *tu ôl i'r awyr* a *Twll Bach yn y Niwl*).

Pwy yw eich hoff nofelydd? Pam?
Y Gwyddel Colm Tóibín. Oherwydd mae'n gwneud i'w grefft ymddangos mor hawdd (dyw hi ddim).

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?
Yr un cyngor ddarllenais i yn fy ugeiniau, sef geiriau Calvin Coolidge yn clodfori dyfalbarhad. 'Nothing in this world can take the place of persistence. Talent will not: nothing is more common than unsuccessful men with talent. Genius will not: unrewarded genius is almost a proverb. Education will not: the world is full of educated derelicts.

Geraint Lewis, Sharon Morgan ac Ifan Huw Dafydd yn *Martha, Jac a Sianco*

Persistence and determination alone are omnipotent.'

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
Perswadiodd dwy ffrind ysgol i mi fynd am gyfweliad ar gyfer cwrs Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Newidiodd un cwrs gwrs arall, sef cwrs fy mywyd.

Beth sy'n apelio fwya, sgrifennu nofel, stori fer neu sgript? Pam?
Yr ateb diflas ond gwir yw beth bynnag wy'n gweithio arno ar y pryd. Efallai bod hyn yn rhywbeth i'w wneud â byw yn yr eiliad?

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Wy'n hoff iawn o fwyd Eidalaidd. Saws *puttanesca* gyda *penne* yw'r ffefryn.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
O'n i'n arfer rhedeg lot a chwarae pêl-droed pum bob ochr am flynyddoedd ond erbyn hyn, cerdded sy'n mynd â'm bryd, yn bennaf ar lannau afon Aeron neu ar Lwybr yr Arfordir. Wy hefyd yn edrych ymlaen yn arw at ddychwelyd i'r theatr a'r sinema mewn ffyrdd diogel.



Lloerig gan Geriant Lewis.
Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch
Cyhoeddir Mawrth 2022. Pris: £8.00

Ysgol Dolau

Coch i Gymru a Felindre
Ar y 4ydd o Chwefror, cymerodd holl blant a staff Ysgol Gynradd Dolau ran yn 'Gwisgwch Goch i Gymru, Gwisgwch Goch i Felindre'. Mwynheuon ni wisgo i fyny mewn coch i ddangos ein cefnogaeth a chodon ni lawer o arian.

Ysgol Sy'n Parchu Hawliau
Llongyfarchiadau i bawb yn Ysgol Gynradd Dolau am gyfrannu at ymgais yr ysgol i fod yn Ysgol Sy'n Parchu Hawliau - Llwyddiant ysgubol! Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn gweithio'n galed gyda phawb yn yr ysgol i ennill y Wobr Efydd: Hawliau Wedi'u Hymrwymo. Bydd yr ysgol nawr yn parhau i weithio tuag at y wobr nesaf a thuag at greu cymuned sy'n deall ac yn parchu hawliau pob person.

Plannu Coed yn y Gymuned
Bu Rhodri Evans o Ddosbarth 1 yn helpu ei dad i blannu coed fel rhan o'i waith yn ddiweddar. Bu dros 160 o wirfoddolwyr a phartneriaid cenedlaethol a lleol yn helpu i blannu tua 1,700 o goed ym Mharc Tremorfa (Caerdydd) er mwyn nodi Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Bydd y coed yma yn cyfrannu tuag at brosiect 'Coed Caerdydd', sy'n anelu i gynyddu canopi'r ddinas i 25% erbyn 2030. Golyga hynny blannu gwerth 800 o gaeau rygbi! Plannodd Rhodri a'i dad tua 50 o goed a chawson nhw ddiwrnod penigamp.

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Gwilym Huws

Dim Clem – go brin!
Llongyfarchiadau i dîm cwis Ysgol Gymraeg Llantrisant fu'n cystadlu yng Nghwis 'Dim Clem' Mentrau Iaith Cymru. Bu cystadlu brwd mewn cwis ar y rhyngrwyd ganol Chwefror yn erbyn Ysgol Efan James. Byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir mewn rownd ranbarthol ar ôl hanner tymor. Aelodau'r tîm yw Max, Gruff, Megan a Math.

Croeso Cynnes
Dymuniadau gorau i Alun Wyn a Jill Bevan a symudodd i'w cartref newydd yn Llanilltern yn ddiweddar er mwyn bod yn agosach at y teulu yn Llantrisant. Bu'r ddau yn byw yng Nghastell-nedd am ddeugain mlynedd ac yn Nyffryn Aman cyn hynny.

***Marmite* o Gymeriad**
'Rebel!', 'Piwritan!', 'Anarchydd!', 'Unben!', 'Bohemiaid!' a *'Deinosor!'*. Defnyddiwyd pob un o'r labeli hyn ar ryw adeg neu'i gilydd i ddisgrifio'r gŵr sy'n destun sgwrs a draddodir yng nghyfarfod mis Mawrth o Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Enw llawn y gwrthrych lliwgar a dadleuol hwn oedd Albert Evans Jones, ond dan yr enw Cynan yr oedd pawb yn cyfeirio ato. Heb amheuaeth, roedd ymhlith Cymry Cymraeg enwocaf yr ugeinfed ganrif. Yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon ym 1921 y daeth Cynan i amlygrwydd cenedlaethol am y tro cyntaf fel awdur y bryddest 'Mab y Bwthyn', ac am yr hanner can mlynedd canlynol roedd yn llygad y cyhoedd bron yn feunyddiol. Yn briodol iawn, Prifardd arall sydd hefyd wedi ei eni ym Mhwllheli a chanddo swydd academaidd ym Mhrifysgol Bangor, sef yr Athro Gerwyn Wiliams, fydd yn adrodd hynt a helynt bywyd Cynan. Ond prysura Gerwyn i nodi mai dyma lle mae'r tebygrwydd rhwng y ddau yn dod i ben! Serch hynny, lluniodd gofiant dadlennol a difyr tu hwnt amdano a gyhoeddwyd yn 2020 (*Cynan: Drama Bywyd Albert Evans Jones 1895–1970,* Y Lolfa). Teitl ei sgwrs, a gynhelir yn rhithiol ar *Zoom* am 7.30 nos Iau 10 Mawrth, yw 'Delweddau o Cynan'. Bydd modd i chi dderbyn manylion ar sut i ymuno yn y cyfarfod dros Zoom trwy e-bostio naill ai groberts@btinternet.com neu johnllewt@hotmail.com

Problem Ysbwriel Llanharan
Mae'r babanod wedi bod yn brysur yn ceisio datrys y broblem ysbwriel yn Llanharan. Bu'r plant yn astudio'r artist Richard Blacklaw, sy'n defnyddio ysbwriel mae'n darganfod ar draethau i greu 'Pop Art'. Creodd y plant celf eu hunain yn yr un arddull; gallwch weld enghreifftiau o'u gwaith yma.

Ymweliad Dechrau Canu Dechrau Canmol
Dilyn trywydd pererinion yr oesoedd canol o Gadeirlan Llandaf i gerflun y Forwyn Fair ar fynydd Pen-rhys yng Nghwm Rhondda wnaeth Nia Roberts yn rhifyn Sul olaf mis Ionawr o'r rhaglen *Dechrau Canu Dechrau Canmol*. Wrth iddi sgwrsio gyda'r hwn a'r llall, cawsom glywed beth oedd arwyddocâd a phwysigrwydd diwylliannol a defosiynol y daith yn y cyfnod cyn y Diwygiad Protestannaidd. Ond wedi i Thomas Cromwell orchymyn dinistrio'r ddelwedd wreiddiol, edwinodd yr arfer o gerdded y llwybr am ganrifoedd. Gan fod y daith gyfan dros 20 milltir o hyd, a Llantrisant tua hanner ffordd rhwng y man cychwyn a'r llinell derfyn, hwn oedd y lleoliad amlwg i oedi dros nos cyn dechrau ail gymal y daith y bore canlynol. Mewn cyfweliad ar y rhaglen gyda Dean Powell, dysgwyd llawer am hanes cynnar a statws arbennig yr eglwys yn ystod yr oesoedd canol. Yn hanesyddol, roedd Llantrisant hefyd ymhlith trefi pwysicaf Cymru ar yr adeg honno ac roedd yno gyfleusterau hanfodol i bererinion blinedig wedi diwrnod o gerdded megis bwyd, diod a gwely. Mae'n siŵr bod canol y dref yn ferw gwyllt ar y nosweithiau hynny pan fyddai grwpiau o bererinion yn cwrdd yno – rhai ar eu ffordd i Ben-rhys ac eraill yn dychwelyd oddi yno.

Erbyn hyn mae gwaith o ail-greu'r llwybr bob cam o Landaf i Ben-rhys, er mwyn denu teithwyr newydd i ddilyn ôl troed ein hynafiaid, wedi ei gwblhau gyda nifer o gatiau mochyn newydd wedi eu gosod arno. Mae'r daith fodern wedi ei rhannu'n chwe chymal hwylus rhwng tair a phum milltir o hyd. Yn eu plith mae un cymal o Groesfaen i Lantrisant, ac un arall o Lantrisant i Donyrefail.

Hefyd datblygwyd gwefan ddwyieithog – www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/ – i hyrwyddo'r llwybr. Ceir cyfoeth o wybodaeth hanesyddol, ynghyd â mapiau o'r daith a thaflenni ac ynddynt gyfarwyddiadau manwl am bob cymal, ynghyd ag oriel ddarluniau o'r golygfeydd a mannau o ddiddordeb arbennig sydd i'w gweld ar y daith. Os oes awydd arnoch ei cherdded o'i dechrau i'w diwedd, neu dim ond rhyw gymal neu ddau, yna mae modd casglu 'pasport' mewn mannau ar y ffordd i gadarnhau eich gorchest!

Ysgol Castellau

Gwersi Meddylfryd
Braf yw croesawu Liz Brillante yn ôl atom i weithio gyda Blwyddyn 4, 5 a 6 ar gwrs Meddylfryd. Mae'r plant yn frwdfrydig iawn yn dysgu strategaethau canolbwyntio a thawelu'r meddwl ac yn datblygu a rheoli eu hanadlu.

Opera
Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn mwynhau gwersi opera yn ystod y tymor gan ein bod yn ffodus dros ben i weithio gyda Opera Cenedlaethol Cymru eleni. Hyfryd yw gweld brwdfrydedd a datblygiad y plant yn eu perfformiadau.

Taith Cam Cynnydd 3 i ddysgu am Hanes y Coke Works a phwll glo'r Cwm
Yn ystod y tymor, mae Bl 4, 5 a 6 wedi bod ar daith o amgylch y Coke Works a phwll glo'r Cwm. Diolch yn fawr i Julie Barton a Carys Romney am arwain y teithiau a rhannu eu gwybodaeth gyda'r plant am hanes y gweithfeydd glo.

Eisteddfod Ysgol
Bu cystadlu brwd yn ein eisteddfod ysgol eleni gyda rhan fwyaf o'r plant yn perfformio'r darnau unawd a llefaru a chyda pawb yn edrych ymlaen yn arw at Eisteddfod yr Urdd! Pob lwc i'r plant fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr eisteddfod sir.

Castellau wedi helpu'r Urdd i dorri record y byd

Roedd pawb yn yr ysgol wrth eu boddau yn dathlu penbwydd yn Urdd yn ddiweddar, gyda'r plant yn canu, dawnsio a chynnal partion arbennig yn eu dosbarthiadau. Braf yw gwybod ein bod wedi cyfrannu at yr Urdd yn torri'r record am y nifer fwyaf o bobl yn canu a lanlwythoi'r un gân a dawnsio i "Hei Mr Urdd".

Diogelwch ar y ffordd
Daeth Kathleen ein menyw lolipop i ddangos i'r plant Meithrin a Derbyn sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Mae hi hefyd wedi cael ei chyfweld gan Bl 1 a Bl 3 wrth iddyn nhw ddysgu am bobl sydd yn ein helpu yn ein cymuned a chyfarwyddiadau croesi'r ffordd.

Croesawu myfyrwyr newydd.
Croeso cynnes iawn i dri myfyriwr sydd newydd ymuno gyda ni ar gyfer eu hail blwyddyn o gwrs addysgu ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datblygiad iard y feithrin
Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar ein iard Meithrin a Derbyn a rydyn ni'n gyffrous iawn i weld y datblygiadau newydd.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ni fu'n bosibl cynnal ein cyfarfod Chwefror a felly, yn lle, roeddem yn ddiolchgar i Gymdeithas Wyddonol Gwynedd am y gwahoddiad i ymuno trwy ZOOM ar Chwefror 14. Nia Heulwen Jones oedd yn traethu ar y testun, Problem Macro o'r Byd Micro: beth allwn ni ei ddysgu o'r broblem lygredd microblastig.

Merch o Gaerffili yw Nia. Yno cafodd ei haddysg gynradd cyn symud i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac oddi yno i Brifysgol Caerdydd lle graddiodd mewn Daearyddiaeth Amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae'n dilyn rhaglen ymchwil yn Ysgol Eigion Prifysgol Bangor, gyda golwg ar ennill gradd Ph.D.

Cafwyd cyflwyniad cefndirol yn nodi yr amrywiaeth eang iawn sydd yn y teitl 'plastigau', yn enwedig o ran meintioli a diffinio microblastigau a nanoblastigau. Nodwyd hefyd yr amrywiaeth o ffynonellau y mathau gwahanol e.e. diwydiannau creu plastigau, peiriannau golchi yn y cartref, teiars ceir, gwastraff cartrefi. Pob un o'r rhain yn arwain at sbwriel a llygredd plastig penodol.

Cafwyd amlinelliad o'r newid syfrdanol a fu yn ein cymdeithas dros hanner canmlynedd yn y defnydd o blastigion at wahanol bwrpasau, bron y cyfan at hwylustod bywyd beunyddiol ond llawer hefyd at ddulliau mwy effeithiol o gynnal diwydiannau. Dim ond yn gymharol ddiweddar y daethpwyd i sylweddoli cymaint y gwastraff di-ofal a'r llygredd cysylltiedig ar dir a mâr, yr olaf trwy raglenni teledu hollol drawiadol David Attenborough.

Mae gwaith ymchwil Nia yn canolbwyntio ar y llygredd plastig sy ar arfordir Gogledd Cymru, yn benodol ardal Aberconwy. Mae modd dilyn llwybr y plastig a nodi pa fathau o blastig, yn ôl dwyster sy'n dylanwadu ar ymddygiad y gwastraff e.e. a ydyw'n arnofio neu yn suddo a sut mae'n symud ar draws yr aber.

Yn y drafodaeth soniwyd am sawl agwedd o gymhlethdod yr astudiaeth. Nid bychan o beth yw'r amrywiaeth o farn wleidyddol ac economaidd sy'n haeddu a hawlio sylw arweinwyr diwydiant.

Dydd Miwsig Cymru
Mwynheuodd pawb ddawnsio a gwrando ar gerddoriaeth ar ddydd Miwsig Cymru.

Ysgol Llanhari

Newyddion Ysgol Llanhari
Er gwaethaf heriau y cyfyngiadau Covid, bu hanner tymor cyntaf y flwyddyn yn gyfle i barhau i ail-gydio mewn rhai gweithgareddau ac ymweliadau. Bu'r disgyblion cynradd ac uwchradd wrth eu bodd yn cymryd rhan yn ymdrech yr Urdd ar ei ganfed penblwydd i dorri'r record byd gyda chân Hei Mistar Urdd yn atseinio ar hyd coridorau Llanhari yn ystod mis Ionawr. Rhai wythnosau yn ddiweddarach, braf oedd cael y cyfle i fwynhau gweithgareddau Dydd Miwsig Cymru. Diolch i'r holl athrawon a fu wrthi'n trefnu gweithgareddau llawn hwyl i'r disgyblion o bob oed ac i'r disgyblion fu wrthi yn pobi a chreu!

Dyddiadau pwysig
Cynhelir sawl diwrnod arwyddocaol yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror ac mae disgyblion yr adran gynradd wedi bod wrthi yn nodi hyn ac wedi dysgu llawer yn ystod y cyfnod. Amrywiodd hyn o ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen, i ddysgu am ddiogelwch ar y we a chynnal digwyddiadau i'n hatgoffa o bwysigrwydd iechyd meddwl yn ystod wythnos iechyd meddwl plant.

Dathliadau
Un o themâu mwyaf poblogaidd blynyddoedd 2-4 yw dathliadau ac eleni bu'r plant yn ffodus bod modd ail-gydio yn ein harfer o ymweld â'r eglwys leol yn Llanhari er mwyn dathlu priodas. Braf iawn cael crwydro o'r ysgol unwaith eto a dysgu am y ddefod bwysig hon gyda ficer y plwyf. Yn anffodus bu rhaid gohirio y brecwast priodas o ganlyniad i berygl Storm Eunice ond gobeithir parhau â'r dathlu ar ôl hanner tymor!

Llongyfarchiadau i ferched y tîm pêl-droed!
Mae merched y tîm pêl-droed dan 13 wedi profi cryn lwyddiant yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen at weld llwyddiannau pellach weddill y tymor. Er mai colli fu eu hanes yn erbyn tîm cryf Ysgol Plasmawr yn rownd 16 olaf Cwpan Cymru ym mis Ionawr maent ar hyn o bryd yn serennu yng nghystadleuaeth cwpan Rhondda Cynon Taf. Byddant yn cystadlu yn y rownd nesaf ar ôl ennill o 6-0 yn erbyn Ysgol Aberdâr yn ddiweddar. Tipyn o gamp a phob lwc yn y gystadleuaeth.

Ymwelwyr o Astro Cymru
Braf fu croesawu Emma a Sarah o Astro Cymru i gynnal gweithdy y gofod gyda blwyddyn 5 cyn hanner tymor. Prif nod y diwrnod oedd trafod swyddi o fewn y diwylliant gofod, dylunio gwisgoedd ac offer yn gysylltiedig gyda'r gofod. Roedd disgyblion blwyddyn 5 wrth eu bodd!

Dementia a'r Iaith Gymraeg

Mae pobl sydd yn byw gyda dementia angen cael trafod eu pryderon a'u symptomau yn agored yn eu mamiaith. Er bod y Gymraeg bellach wedi cael statws cyfartal a'r Saesneg yng Nghymru ers 2011, prin yw'r ymchwil i brofiadau brodorion sydd yn siarad iaith leiafrifol fel Cymraeg a sut mae hyn yn effeithio ar eu lles a gofal. Dyma galon digwyddiad diweddar CADR a drefnwyd gan Dr Catrin Hedd Jones, darlithydd astudiaethau Dementia ym Mhrifysgol Bangor ac aelod o CADR sydd wedi cyhoeddi briff ymchwil (https://ymchwil.senedd.cymru/media/bnkmcoum/18-016-web-welsh.pdf) i Senedd Cymru ar fynediad trigolion dwyieithog i wasanaethau gofal dementia.

Cafwyd tystiolaethau personol gan Beti George a gasglwyd yn ddiweddar ar gyfer y gyfrol 'Datod' a diweddariad o ran gweithredu ar argymhellion adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Gymdeithas Alzehimers Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg gan Huw Owen.

Roedd ymchwil gan Dr Conor Martin ac Angharad Higgins yn dangos pwysigrwydd cyfathrebu gyda thrigolion mewn cartrefi gofal yn yr iaith sydd yn famiaith o ran yr ymdeimlad o berthyn a hapusrwydd yn y cartref a hwyluso gofal yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil fydd yn sicrhau fod cyfieithiadau o brofion clinigol yn cael eu dilysu. Cewch fwy o gefndir i'r gwaith hwn yn y recordiad o Hanna Thomas a Dr Kathryn Jones yn y linc - (https://youtu.be/989CqPa2UzE). Mae angen casglu canlyniadau profion gan siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn byw efo dementia fel cam cyntaf o'r ymchwil ac os hoffech chi fwy o wybodaeth cysylltwch â Catrin ar 01248 388872/ c.h.jones@bangor.ac.uk

Cewch fynediad i'r recordiad ar lafar a fideo yn Gymraeg a chyfieithiad wedi ei deipio yma (https://www.cadr.cymru/ên/dementia-and-the-welsh-language.htm)

Ysgol Evan James

Ffarwelio â Mrs Prys-Garrett
Ar ddiwedd yr hanner tymor, gadawodd Mrs Prys-Garrett ar ôl ugain mlynedd yma yn Ysgol Evan James. Fe fyddwn ni oll yn gweld ei heisiau yn fawr a hoffem ddiolch iddi am ei hymroddiad a'i harweiniad arbennig. Fe fydd Mrs Prys-Garrett yn dechrau ar ei swydd newydd gydag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ddiwedd mis Chwefror. Bydd yn dysgu Cymraeg i oedolion. Diolch yn fawr a phob lwc.

Ymwelwyr i'r ysgol
Yn ystod mis Chwefror croesawyd ymwelwyr i'r ysgol. Daeth Lowri Morgan, yr anturiaethwraig i siarad gyda rhai o ddosbarthiadau'r adran iau am ei phrofiadau a'i hanturiaethau. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwrando arni ac yn sicr, fe ysbrydolwyd pawb i feddwl am eu her nesaf.

Daeth yr awdures plant Jessica Dunrod i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda disgyblion blwyddyn 6. Siaradodd ar yr hyn sy'n ei hysbrydoli a darllenodd ychydig o'i gwaith. Mwynheuodd y plant yn fawr.

Diwrnod Iechyd Meddwl
Ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl trefnodd y Cyngor Iechyd a Lles bod y disgyblion yn gwisgo'u hoff ddillad i'r ysgol a'n dod â'u hoff gêm fwrdd i'w chwarae gyda chyfeillion yn y dosbarth. Cawsom ddiwrnod bendigedig.

Sioe Techniquest
Mwynheuodd Dosbarth Sali Mali a Dosbarth Jac y Jwc weld sioe Techniquest "Byd y Deinosoriaid". Dysgodd y plant lawer am gynefin y deinosoriaid a'r hyn roeddent yn ei fwyta. Gobeithio y cawn fwynhau mwy o'r sioeau gwych yma yn y dyfodol.

Dathlu Dydd Miwsig Cymru
Cawsom wythnos o weithgareddau cerddorol i ddathlu dydd Miwsig Cymru. Crewyd offerynnau gwych a hynod o greadigol. Buodd pawb yn dawnsio ar iard yr ysgol i gerddoriaeth Gymraeg yn ystod amseroedd chwarae. Yn ogystal, gwrandawom ar ganeuon Cymraeg amrywiol gan ddewis ein hoff gân ar ddiwedd yr wythnos. Yr enillydd oedd "Blerr" gan Tara Bandito. Yn goron ar y cyfan, cyfansoddodd Dosbarth Culhwch ar Olwen gân arbennig a'i pherfformio a'i recordio i'r ysgol ei mwynhau. Diolch i chi.

Pêl-droed
Mae timau pêl-droed yr ysgol wedi bod yn cystadlu mewn dwy gystadleuaeth yn ddiweddar. Gwnaeth tîm cymysg yr ysgol yn arbennig o dda yng nghastadleuaeth yr Urdd. Mae tîm Blwyddyn 4 yn mynd o nerth i nerth ac roeddent yn ddi-guro yn nhwrnament Rhondda Cynon Taf. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Menter Caerdydd

Crefydd a The Prynhawn – Gweithgareddau mis Mawrth

Wedi holl ddathliadau Gŵyl Ddewi, edrychwn ymlaen at fis prysur arall o weithgareddau.

Yr Athro D. Densil Morgan fydd arweinydd y cwrs nesaf yn ein cyfres 'Hanes Cymru' ar nosweithiau Llun – 14, 21, 28 Mawrth. Agweddau ar hanes crefydd yng Nghymru fydd dan sylw wrth i ni ystyried Cristnogaeth a'r Gymru fodern, 1760-2000.

Bydd pob sesiwn Zoom yn olrhain hanes cyfnod gwahanol a'r pynciau trafod yn cynnwys Williams Pantycelyn a'r Diwygiad Efengylaidd; Crefydd a'r Rhyfel Mawr a'r Argyfwng Ymneilltuaeth. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i'r adran 'Oedolion' ar wefan Menter Caerdydd.

Os mai cerddoriaeth sy'n cymryd eich bryd, beth am fynychu ein cyngherddau cymunedol bob bore Llun am 11.30 yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina? Dyma brosiect ar y cyd gyda Live Music Now ac mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim. Tair cyngeredd sy'n weddill yn y gyfres - 7, 14 a 21 Mawrth.

Cofiwch hefyd am Sgwrs y Mis, nos Iau, 31 Mawrth yng nghwmni'r Athro Mererid Hopwood. Ac yn y Bore Coffi Misol i Ddysgwyr, fore Gwener ola'r mis ar Zoom, Gareth Lloyd Roberts fydd yn sgwrsio am gynlluniau diweddaraf Canolfan Gelfyddydol yr Eglwys Norwyaidd.

Wedi cael llond bol o goginio? Beth am gofrestru'r plant ar gyfer ein sesiynau blasus newydd yng nghwmni Ian Williams, enillydd Yr Academi Felys ar S4C? Mewn cwrs 5 wythnos ar Zoom, gall plant 8-13 oed ddysgu sut mae paratoi'r te prynhawn perffaith! (Yn dechrau, 8 Mawrth)

Datblygiad ffrwydrol arall yw ein partneriaeth gyda Spark Lab Cymru. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer Wythnos Wyddoniaeth (11-20 Mawrth). Felly os oes gwyddonwyr bach brwd yn eich teulu chi, cadwch olwg ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion!

I'r rhai sydd â phlant dan 4 oed, cofiwch am Amser Stori a'r gweithdai hwyliog mewn amryw o leoliadau. Dewch i ganu a dawnsio gyda Siani Sionc neu i fwynhau sbri'r syrcas gyda 'Rhian Circus Cymru'.

Beth bynnag eich oedran a'ch diddordebau, mae rhywbeth i bawb gyda'r Mentrau!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888.

Rhagor o Eisteddfod Caerdydd 2022

Canlyniadau cystadlaethau rhyddiaith
Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9.
1af: Erin Fflur Jardine.
Rhyddiaith blwyddyn 10 i 13.
1af: Lleucu William.
Llên meicro. 1af: Martin Huws

Martin Huws yn derbyn Medal y Prif Lenor.

(Gweler tudalen 10)

Ysgol Pont-Sion-Norton

Croeso
Croeso mawr i Louise a Meryl sydd yn gweithio yn y swyddfa a phob lwc i Carlie wrth iddi hi ddechrau ei chyfnod mamolaeth! Rydym yn edrych ymlaen at y newyddion mawr!

Croeso
Croeso hefyd i'n plant newydd cyn-feithrin. Maent wedi ymgartrefu yn dda erbyn hyn.

Coch
Ar ddechrau mis Chwefror, fe wisgodd pawb ddillad coch i'r Ysgol a gwneud cyfraniad tuag at elusen Felindre. Roedd yr Ysgol wedi newid o wyrdd i goch am y dydd! Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Casglodd Mabon ei holl arian poced i'w roi i elusen Felindre. Dyna garedig Mabon!

Urdd yn 100
Roedd Cymru gyfan yn dathlu penblwydd arbennig yr Urdd eleni! Bu'r plant yn gwisgo gwyn, coch a gwyrdd a chanu cân Mr Urdd i helpu dorri record y byd wrth ei uwch-lwytho ar Twitter. Llongyfarchiadau i'r Urdd am dorri 2 record byd- Twitter a Facebook!

Diogelwch Ar-lein
Bu'r Ysgol gyfan yn mwynhau dathlu diwrnod diogelwch y we ym mis Chwefror a dysgu am gadw'n ddiogel

wrth chwarae gemau ar-lein. Diolch Miss Evans am drefnu.

Eisteddfod
Cafwyd diwrnod hyfryd wrth i blant yr Ysgol gymryd rhan yn yr Eisteddfod Ysgol. Llongyfarchiadau a phob lwc i bawb sydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Gylch ym mis Mawrth.

Cerddoriaeth
Diolch yn fawr iawn i'r Welsh Whisperer am ddod i gynnal gweithdy gyda blynyddoedd 3 i 6 ac am berfformio i'r Ysgol gyfan. Bu llawer o ddawnsio a chwerthin!

Lles
Diolch i Miss Morgan am drefnu wythnos o weithgareddau lles er mwyn codi ymwybyddiaeth o Wythnos Iechyd Meddwl. Roedd dangos y lluniau babi yn uchafbwynt- mae pawb wedi newid llawer!

Sw Bryste
O ganlyniad i'r grant Gaeaf Llesol, aeth blwyddyn 5 a 6 i Sw Bryste. Roedd yn drip llesol a diddorol yn ymwneud â'r thema Ysgol gyfan 'Pob Creadur Bach a Mawr'. Cafwyd llawer o hwyl yn ogystal

Sŵ Bryste

â dysgu llawer am bob math o greaduriaid. Mae tripiau blwyddyn 3 a 4 a'r Cyfnod Sylfaen cyn hir. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr atyn nhw!

Y Faner Werdd
Llongyfarchiadau i'r Ysgol am dderbyn y Faner Werdd! Diolch i'r Cyngor Eco, Mrs Jeffries a Miss Pugh am eu holl gwaith paratoi. Edrychwn ymlaen at arddangos y faner ar flaen yr Ysgol.

Y Faner Werdd

Anifeiliaid
Daeth y Nearly Wild Show i'r Ysgol i siarad gyda'r Cyfnod Sylfaen cyn y gwyliau. Roedd ganddyn nhw pob math o greaduriaid bach a mawr- o'r tarantula i'r neidr hir iawn! Roedd y plant wrth eu boddau yn cael cyffwrdd a dal y creaduriaid amrywiol- wel, bron pob un! Doedd un bachgen bach ddim rhy hapus pan aeth y lygoden fawr i'r tŷ bach o'i flaen!

Ysgol Garth Olwg

Prosiect Moondance
Yn ddiweddar mae disgyblion blwyddyn 7 wedi bod yn trafod codi ymwybyddiaeth o'r broses sgrinio cancr y coluddyn yn ystod eu sesiynau Moondance. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://bowelcanceruk.org.uk/about-us/what-we-do/

Myfyriwr MIT
Cafodd ychydig o ddosbarthiadau'r adran Wyddoniaeth y fraint o gael gwers rithiol gan fyfyriwr o'r Massachusetts Institute of Technology (MIT) ym mis Ionawr trwy'r rhaglen Global Teaching Labs yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cydlynu sesiynau rhwng myfyrwyr MIT sy'n arbenigo mewn meysydd STEM gydag ysgolion Cymru. Eleni roedd yr ysgol wedi cydweithio gyda'r myfyriwr Daniel Zhang sy'n astudio BSc mewn Bioleg gyda'r gobaith i astudio gradd bellach er mwyn hyfforddi fel doctor a chynnal ymchwil i gancr.

Arholiad Ymarferol Drama
Dros yr wythnosau diwethaf, mae blynyddoedd 11, 12 a 13 sy'n astudio Drama wedi bod yn ymarfer yn drylwyr ar gyfer eu harholiadau ymarferol. Perfformiwyd y rhain yn ystod mis Chwefror.

Roedd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 13 wedi dewis golygfa o'r Ddrama 'Bryniau Glas Atgofion', a dewisodd disgybl arall fonolog o'r ddrama Macbeth. Dewisodd Blwyddyn 12 y ddrama 'Tusk Tusk' i'w hail-ddehongli gan ddefnyddio technegau'r ymarferwr theatr Artaud. Penderfynodd Blwyddyn 13 i edrych ar dechnegau Artaud

hefyd. Mae dulliau Artaud yn cynnwys Theatr Greulondeb i greu llethol llwyr o'r synhwyrau a theimlad o ofn ac anghysur. Gwnaeth Artaud hyn i ddeffro emosiynau, nerfau a chalonnau'r gynulleidfa. Ac yn sicr, mi wnaeth y disgyblion lwyddo wrth berfformio eu golygfeydd!

Defnyddion nhw waed ffug, tywyllwch, sgrechian, effeithiau sain a hyd yn oed gorfodi'r gynulleidfa i fwyta ffondant oedd yn edrych fel bysedd realistig!

Gweithiodd Beca Roberts yn galed iawn ar y gwisgoedd, ac roeddent yn effeithiol tu hwnt! Diolch hefyd i Gareth Thomson am helpu gyda'r holl arholiadau ymarferol ar yr ochr sain a goleuo. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Dydd Miwsig Cymru
Pwrpas Dydd Miwsig Cymru ydy dathlu'r ystod eang o gerddoriaeth sydd wedi ei chyfansoddi yn y Gymraeg ac yng Nghymru. Mae'n ddigwyddiad blynyddol ac eleni glaniodd ar y Pedwerydd o Chwefror. Ar gyfer ei ddathlu yma yng Ngarth Olwg gwnaethom drefnu digon o ddigwyddiadau ar gyfer y disgyblion yn ogystal ag annog yr athrawon i chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn eu dosbarthiadau - braf oedd clywed cerddoriaeth Gymraeg o bob math o gwmpas yr ysgol!

Ar gyfer hybu'r digwyddiad fel ysgol gwnaethom uno'r pedwar Ysgol ar gyfer creu fideo i'r gân Neidia gan y band Gwilym. Braf oedd creu'r fideo - mae'r linc ar drydar yr ysgol.

Hefyd gwnaethom drefnu disgos unigol ar gyfer Blynyddoedd 5, 6 a 7 ar ddiwedd yr wythnos. Roedd pawb wedi mwynhau dawnsio a chwarae gemau. Diolch arbennig i Gareth Thomson oedd wrth y llyw efo'r gerddoriaeth a'r goleuo creadigol.

Yn ogystal, trefnwyd cystadlaethau ar gyfer y disgyblion. Llongyfarchiadau mawr i Grace Flynn o Flwyddyn 7 am ennill, dyma lun ohoni gyda'i gwobr!

Diwrnod llwyddiannus a hwyl i'r disgyblion trwy ddangos pa mor dda yw Miwsig Cymraeg!

Pen-blwydd Mr Urdd
Ar y 25ain o Ionawr dathlodd yr ysgol ben-blwydd rhywun arbennig iawn yn 100 oed. Roedd y plant wrth eu boddau yn dawnsio a chanu i'r gân Hei Mistar Urdd. Gwisgodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf liwiau'r urdd, pobi bisgedi blasus ac addurno'r ysgol gyda baneri fel rhan o'r dathliadau.

Ysgol Garth Olwg
(Parhad)

Newyddion o'r Ysgol Isaf
Eisteddfod ysgol
Ddechrau Chwefror cynhaliwyd yr Eisteddfod ysgol. Roedd yna fwrlwm a chyffro yn y neuadd y bore hwnnw a pherfformiodd y disgyblion yn wych yn y cystadlaethau llefaru a lleisiol. Roedden yn falch iawn o bob un ohonoch. Mae'r buddugwyr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod gylch mis nesaf. Pob lwc iddynt.

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau i dîm Cwis Llyfrau blwyddyn 3 a 4 a hefyd 5 a 6 am ennill y rownd gyntaf. Pob dymuniad da iddynt ar gyfer y rownd nesaf.

Taith y côr i Ganolfan Yr Urdd ym Mae Caerdydd
Cafodd aelodau côr yr ysgol cyfle i fynd i

aros dros nos yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd ddechrau Chwefror. Mwynheuodd y disgyblion gêm o fowlio 10 hefyd cyn swper ac yna ffilm cyn noswylio.

Twmpath dawns
Cafodd ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 y cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn twmpath dawns. Cawsant brynhawn hyfryd yn dysgu sgiliau dawnsio newydd.

Pêl-fasged
Llongyfarchiadau i enillwyr twrnamaint pêl -fasged y sir o dan 14 ac o dan 16. Bydd y ddau dîm yn cynrychioli'r sir yn y rownd ranbarthol ym mis Mawrth.

Ysgol Tonyrefail
(Parhad)

Y Dosbarth Meithrin yn bwydo'r adar

Dosbarth Meithrin yn gwneud bwyd i'r adar

Tîm Pêl Droed
Cafodd tîm pêl droed yr ysgol gyfle i gystadlu am y tro cyntaf ers amser hir yn nhwrnament pêl droed yr Urdd yn ddiweddar. Cafwyd perfformiadau da iawn ganddynt ac mae'n argoeli dda ar gyfer twrnamentau yn y dyfodol.

Tîm Pêl-droed yr ysgol

O Shelley i Shirley



Shelley Rees yn serennu fel gwraig tŷ gyda phwysau'r byd ar ei hysgwyddau, sy'n mynd ar wyliau i Roeg ac yn darganfod llawer mwy yno na'r disgwyl. Cyfieithiad Cymraeg newydd o Shirley Valentine, clasur Willy Russell, yn cael ei llwyfannu y gwanwyn hwn.

Mae'r Consortiwm Cymraeg wedi cyhoeddi taw eu cynhyrchiad cyntaf fydd cyfieithiad newydd o gomedi wych Willy Russell. Bydd Shirley Valentine ar daith o gwmpas theatrau a chanolfannau celfyddydol ledled Cymru ym mis Mawrth 2022.

Comedi sy'n codi'r galon yw hon gan awdur Blood Brothers ac Educating Rita, ac fe gafodd y fersiwn ffilm ohoni, yn serennu Pauline Collins a Tom Conti, ei henwebu am Oscar ym 1989. Daeth yn glasur dros nos gyda'i gyferbyniad rhwng awyrgylch di-fflach maesdrefi dinesig a chyfaredd disglair gwlad Groeg yn treiddio i ddychymyg cenhedlaeth gyfan o fynychwyr theatr a ffans y sinema.

Shelley Rees sy'n chwarae rhan y wraig tŷ rwystredig. Mae Shelley, cafodd ei anrhydeddu gydag enwebiad BAFTA Cymru, yn adnabyddus i gynulleidfaoedd y sgrin fach yn ogystal â llwyfannau ledled Cymru. Yn ddiweddar ymddangosodd yn Keeping Faith, Casualty, Gwaith Cartref a hi oedd Stacey Jones yn Pobol Y Cwm. Mae hi hefyd wedi actio yn Svengali, The Green Hollow, a Hinterland i'r BBC. Ar hyn o bryd mae Shelley yn diddanu cynulleidfaoedd ar BBC Radio Cymru bob bore Sadwrn gyda'i chyd-gyflwynydd Rhydian Bowen Phillips.

Manon Eames sydd wedi cyfieithu'r ddrama gymeradwy hon sy'n dilyn anturiaethau gwraig tŷ sownd-yn-ei-rhigol wrth iddi adael ei gŵr i chwilio am gyffro a rhamant ar ynys Roegaidd. Mae Manon yn awdur, actor a chyflwynydd profiadol sy'n byw yn Ne Cymru. Mae wedi gweithio ledled Cymru a thu hwnt, gan arbenigo i ddechrau mewn theatr i bobl ifanc a chynulleidfaoedd cymunedol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Manylion archebu tocynnau i'w canfod yma www.theatrnanog.co.uk.

3-5 Mawrth THEATR SOAR, Merthyr Tudful 01685 722176 theatrsoar.cymru. 10 Mawrth COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU, Caerdydd. 029 2039 1391 rwcmd.ac.uk 22 Mawrth SEFYDLIAD Y GLÖWR, COED DUON. 01495 227206. blackwoodminersinstitute.com 23 Mawrth THEATR Y PARC A'R DÂR. Treorci. 03000 040 444. rct-theatres.co.uk 29 Mawrth CANOLFAN Y CELFYDDYDAU MEMO, Y Barri 01446 738622 memoartscentre.co.uk 30 Mawrth – 1 Ebrill. PAFILIWN Y GRAND Porthcawl 01656 815995 grandpavilion.co.uk